



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Healthcare Inspectorate Wales

## Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru Adroddiad Blynyddol 2021-2022



# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth annibynnol y GIG a'r rheoleiddiwr ar gyfer gofal iechyd annibynnol yng Nghymru.

## Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da.

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn.

## Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol



## Nod

Annog gwelliant ym maes gofal iechyd drwy wneud y gwaith iawn ar yr amser iawn yn y lle iawn; gan sicrhau bod yr hyn a wnawn yn cael ei gyfleu'n dda ac yn gwneud gwahaniaeth.

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

## Rhoi sicrwydd

Cynnig barn annibynnol am ansawdd y gofal.

## Hybu gwelliant

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arferion da.

## Dylanwadu ar bolisiau a safonau

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisiau, safonau ac arferion.

Amdanom Ni	2
Rhagair	4
Trosolwg	6
<b>Blaenoriaeth 1</b>	
Mwyafu effaith ein gwaith i gefnogi gwelliant mewn gofal iechyd	7
Adolygiadau cenedlaethol a lleol	8
Adolygiadau parhaus cyfredol	12
<b>Blaenoriaeth 2</b>	
Gweithredu pan na chyrhaeddir Safonau	15
Cyflwyno proses Cyflwyno Pryder ar gyfer Cyrff y GIG yng Nghymru	16
AGIC yn cyflwyno rhybuddiad	17
Adolygiadau o farwolaethau yn y ddalfa	22
Canfyddiadau sicrwydd ac arolygiadau	24
<b>Byrddau Iechyd y GIG ac Ymddiriedolaethau'r GIG</b>	<b>45</b>
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	46
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	48
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	50
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	52
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	54
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	56
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	58
Iechyd Cyhoeddus Cymru	60
Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre	61
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru	62
<b>Blaenoriaeth 3</b>	
Bod yn fwy gweladwy	64
Cydweithredu	64
Ymgysylltu	65
<b>Blaenoriaeth 4</b>	
Datblygu ein pobl a'n sefydliad i wneud y gwaith gorau posibl	66
Diweddariad mewnol	66
<b>Matrics Ymrwymiad</b>	<b>67</b>
<b>Ein hadnoddau</b>	<b>80</b>
Cyllid	81



## Tudalen 4 Rhagair

Croeso i'n Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2021 - 2022, blwyddyn a barhaodd i fod yn anrhagweladwy a chyda heriau parhaus sylweddol ym maes gofal iechyd, a bywyd bob dydd.



## Tudalen 7-12 Blaenoriaeth 1

Mwyafu effaith ein gwaith i gefnogi gwelliant mewn gofal iechyd

## Tudalen 15-62 Blaenoriaeth 2

Gweithredu pan na chyrhaeddir Safonau

Byrddau Iechyd y GIG ac Ymddiriedolaethau'r GIG



## Tudalen 64-65 Blaenoriaeth 3

Bod yn fwy gweladwy

Mae cydweithredu a chydweithio â sefydliadau eraill yn rhan annatod o'r ffordd yr ydym yn gweithio.

## Tudalen 66 Blaenoriaeth 4

Datblygu ein pobl a'n sefydliad i wneud y gwaith gorau posibl

Er bod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un o newid sylweddol, rydym wedi parhau i fuddsoddi yn natblygiad AGIC



# Rhagair



Alun Jones  
Prif Weithredwr

**“Unwaith eto, rwy’n canmol y cryfder a’r gwytnwch a ddangosir gan staff sy’n gweithio ar bob lefel o fewn gwasanaethau gofal iechyd, sy’n parhau i ddarparu gofal a thriniaeth yn y ffordd orau bosibl, er gwaethaf yr heriau niferus y maent yn eu hwynebu bob dydd.”**

**Croeso i’n Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2021 - 2022, blwyddyn a barhaodd i fod yn anrhagweladwy a chyda heriau parhaus sylweddol ym maes gofal iechyd, a bywyd bob dydd.**

Parhaodd gwasanaethau gofal iechyd i fod dan bwysau dwys oherwydd effaith pandemig COVID-19, ac mae ein rôl wedi bod yn hollbwysig o ran cefnogi darpariaeth gofal iechyd diogel i bobl Cymru. Ni newidodd ein diben craidd o wirio ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd, a gwnaethom barhau i addasu ein prosesau a’n dull o weithio mewn ymateb i’r sefyllfa ddigynsail barhaus.

Mae’r adroddiad yn nodi ein canfyddiadau allweddol o reoleiddio, arolygu ac adolygu gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru. Mae’n amlinellu sut y gwnaethom gyflawni ein swyddogaethau ledled Cymru drwy amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys arolygiadau a gwiriadau ansawdd.

Mae newid a hyblygrwydd wedi bod yn nodweddion allweddol o fywyd ers mis Mawrth 2020 ac fel sefydliad, rydym wedi dysgu llawer am sut a lle y gall ein gwaith ychwanegu gwerth at yr agenda gwella gofal

iechyd. Drwy’r adroddiad hwn byddwn yn cynnig trosolwg o’n gwaith dros y cyfnod o 12 mis, gan amlinellu sut y gwnaethom addasu a defnyddio ein hadnoddau yn fwyaf effeithiol i gyflawni ein gwaith a chefnogi gwelliant. Roedd hyn yn cynnwys parhau â Gwiriadau Ansawdd a gyflwynwyd gennym yn gynharach yn y pandemig, gan ein galluogi i gael sicrwydd o bell. Gwnaethom gydweithio ag eraill i harneisio mewnwelediad a dealltwriaeth, gan adeiladu ar wersi a ddysgwyd. Gwnaethom hefyd ddefnyddio dulliau adrodd newydd a’i gwnaeth yn bosibl i ni rannu ein canfyddiadau yn brydlon â gwasanaethau gofal iechyd, fel eu bod yn gallu cymryd camau gwella yn gyflymach.

Yn ystod blwyddyn pan fu gwasanaethau gofal iechyd yn gweithio’n galed i adfer gwasanaethau a oedd wedi’u hatal dros dro, tra’n parhau i ymdrin ag amrywiadau a oedd yn dod i’r amlwg, brigiadau o achosion, a brigiadau pellach o COVID-19, rydym wedi gweld ansefydlogrwydd sylweddol. Unwaith eto, rwy’n canmol y cryfder a’r gwytnwch a ddangosir gan staff sy’n gweithio ar bob lefel o fewn gwasanaethau gofal iechyd, sy’n parhau i ddarparu gofal a thriniaeth yn y ffordd orau bosibl, er gwaethaf yr heriau niferus y maent yn eu hwynebu bob dydd.

Mae uwch-reolwyr sy'n arwain gwasanaethau wedi dangos dyncwch a'r gallu i barhau i arloesi a chefnogi eu sefydliadau. Mae staff sy'n gweithio ar y rheng flaen wedi parhau i ddangos eu tosturi a'u gwytnwch oherwydd, unwaith eto, mae cleifion wedi dweud wrthym am eu profiadau cadarnhaol o staff er gwaethaf amgylchiadau hynod heriol.

Mae'n amlwg bod llawer o heriau o'n blaenau o hyd, i wasanaethau, i'r staff sy'n gweithio ynddynt, ac i bobl Cymru, tra bod y dasg aruthrol o adfer gwasanaethau yn parhau. Ar gyfer sefydliadau gofal iechyd, bydd y staff yn allweddol i lwyddiant yr adferiad hwn. Bydd cefnogi llesiant staff, parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant a gwasanaethau cymorth a pharhau i arloesi wrth ddarparu gwasanaethau presennol yn allweddol i adferiad effeithiol staff a gwasanaethau o'r blinder dwys sydd wedi dod yn sgil y pandemig.

Mae'r flwyddyn dan sylw yn adlewyrchu cyfnod pan wnaethom weithio ar yr ymrwymadau a wnaethom yn ein **Strategaeth a Chynllun Gweithredol** un flwyddyn. Gwnaethom gynnydd da o ran cyflawni'r cyflawniadau yr oeddem am eu cyflawni - rydym wedi nodi'r canlyniadau a gyflawnwyd yn ein matrices ymrwymadau ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Rwy'n falch o fod

wedi parhau i arwain y sefydliad drwy'r cyfnod hwn, gan weithio ochr yn ochr yn ddyddiol â thîm o staff proffesiynol ac ymroddedig sy'n gweithio'n galed i gefnogi'r sefydliad wrth i ni gyflawni ein gweledigaeth o wella gofal iechyd i bobl Cymru.

Ym mis Mawrth 2022, gwnaethom gyhoeddi ein strategaeth newydd ac uchelgeisiol a dros y tair blynedd nesaf, rydym wedi ymrwymo'n llwyr i weithredu a chyflawni ein blaenoriaethau newydd sy'n hyrwyddo ein nod i ysgogi gwelliant ym maes gofal iechyd. Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein rôl i annog gwelliant ym maes gofal iechyd, gan adeiladu ar y gorau o'r hyn yr ydym wedi'i wneud hyd yn hyn i sicrhau'r effaith fwyaf.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, sylwadau, syniadau, neu adborth ar ein gwaith, mae croeso i chi gysylltu â ni - byddem wrth ein boddau yn clywed gennych.

**Alun Jones**

Prif Weithredwr, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru



# Trosolwg




Ein strategaeth ar gyfer 2021 - 2022

1. Mwyafu effaith ein gwaith i gefnogi gwelliant ym maes gofal iechyd
2. Gweithredu pan na chyrhaeddir safonau
3. Bod yn fwy gweladwy
4. Datblygu ein pobl a'n sefydliad i wneud y gwaith gorau posibl

I AGIC, fel llawer o wasanaethau a sefydliadau gofal iechyd, bu'n flwyddyn o newid parhaus a sylweddol, pan fu'n rhaid inni addasu i sicrhau ein bod yn parhau i wirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da. Gwnaethom gyflwyno ffyrdd newydd o weithio er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein swyddogaethau statudol, tra'n bod mor hyblyg ac addasadwy â phosibl i sicrhau nad oeddem yn ychwanegu baich diangen ar system sydd eisoes dan bwysau sylweddol yn dilyn pandemig COVID-19.

Gwnaethom barhau ag ystod lawn o weithgareddau sicrwydd ac arolygu, gan adeiladu ar ein ffyrdd gwell o weithio, gan ei gwneud yn bosibl i ni gymryd camau lle na chyrhaeddwyd safonau ond hefyd i gefnogi'r broses o adfer gwasanaethau gofal iechyd yn ehangach.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom adolygu ein gweithgareddau yn rheolaidd er mwyn sicrhau ein bod yn targedu ein hadnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol. Buom yn gweithredu'n ymatebol, gyda'n gwaith yn cael ei ategu gan ein blaenoriaethau strategol. Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio ein cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hyn wrth i ni anelu at ysgogi gwelliant a hybu safonau mewn gwasanaethau gofal iechyd ledled Cymru.



# Mwyafu effaith ein gwaith i gefnogi gwelliant mewn gofal iechyd

Mae gan AGIC raglen barhaus o adolygiadau cenedlaethol a lleol sy'n ein helpu i werthuso sut mae gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru yn cael eu darparu.

Mae adolygiadau lleol yn ddarnau o waith yr ydym yn eu gwneud sy'n archwilio agwedd ar un sefydliad neu ranbarth, tra bod adolygiadau cenedlaethol yn archwilio gwasanaethau gofal iechyd ledled Cymru.




## Adolygiadau cenedlaethol a lleol

### Adolygiad Cenedlaethol COVID-19 - Y ffordd y gwnaeth gwasanaethau gofal iechyd ledled Cymru ddiwallu anghenion pobl a chynnal eu diogelwch yn ystod y pandemig.

Diben ein hadolygiad COVID-19 oedd deall y ffordd y gwnaeth gwasanaethau gofal iechyd ledled Cymru ddiwallu anghenion pobl a chynnal eu diogelwch yn ystod y pandemig. Roedd hefyd yn ystyried sut roedd gwasanaethau'n rheoli eu hamgylcheddau gofal, mesurau atal a rheoli heintiau, a sut roedd llesiant corfforol a meddyliol staff yn cael ei gefnogi.

Thema allweddol a ddaeth i'r amlwg o'n hadolygiad oedd yr angen i wasanaethau gofal iechyd gryfhau ymhellach eu trefniadau atal a rheoli heintiau er mwyn lliniaru'r risg o groes-heintio neu achosion pellach o COVID-19. Yn ogystal, roedd angen rhoi sylw a ffocws i'r trefniadau ar gyfer cefnogi a chynnal llesiant corfforol a meddyliol staff wrth i wasanaethau gofal iechyd barhau yn ystod cyfnod adfer y pandemig. Fodd bynnag, yn gyffredinol, canfu ein hadolygiad fod ansawdd y gofal a ddarperir ledled Cymru yn dda a'i fod yn cael ei ddarparu gan grwpiau o staff hynod ymroddedig ac ymroddgar.





## Atal Argyfwng Iechyd Meddwl yn y Gymuned

Ffocws ein hadolygiad oedd deall digonolrwydd y mesurau sydd ar waith ledled Cymru i helpu i atal argyfwng iechyd meddwl yn y gymuned drwy ofal prydlon a phriodol. Gwnaethom ystyried profiadau pobl a gafodd ofal a thriniaeth i gefnogi eu hiechyd meddwl ac atal argyfwng. Yn ogystal, gwnaethom ystyried p'un a oedd y gwasanaethau a ddarparwyd yn ddiogel ac yn effeithiol, a sut roedd timau gofal iechyd yn cydweithio ledled y gymuned i helpu i atal argyfwng iechyd meddwl. At hynny, gwnaethom archwilio sut mae sefydliadau'r trydydd sector yn cefnogi hyn.

Canfu ein hadolygiad fod heriau ledled Cymru yn atal gallu pobl i gael mynediad at gymorth amserol ar gyfer eu hiechyd meddwl, a allai gynyddu'r risg i'w diogelwch (neu i ddiogelwch eraill) ac a allai arwain at dderbyniadau i'r ysbty.



Roedd y canfyddiadau allweddol yn cynnwys aneffeithlonrwydd yn y broses, yn enwedig ar gyfer atgyfeiriadau uniongyrchol lle roedd cleifion yn cael eu dal mewn cylch o gyrchu gwasanaethau meddygon teulu yn barhaus er mwyn ailddechrau'r broses atgyfeirio. Arweiniodd hyn at y faith bod unigolion yn profi amseroedd aros hir a diffyg cefnogaeth ar gyfer eu hiechyd meddwl. Gwnaeth adolygiad AGIC annog byrddau iechyd i ystyried sut y gallant fynd i'r afael â'r bwlch hwn yn y ddarpariaeth, gan gryfhau'r ymgysylltiad rhwng meddygon teulu a gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol eraill a gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd. Canfu'r adolygiad fod staff gofal iechyd yn ymroddedig ac ymroddgar o ran darparu cymorth a gofal i bobl ag anghenion iechyd meddwl.

Nododd AGIC nifer o fentrau cadarnhaol ledled Cymru, gan gynnwys gweithredu un pwynt mynediad. Lle roedd hyn ar waith, roedd yn sicrhau bod gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol arbenigol ar gael i ddarparu camau brysbennu clinigol, atgyfeirio ymlaen, a chyfeirio effeithiol i unigolion mewn argyfwng. Gwnaeth AGIC argymhelliad bod yn rhaid i fyrddau iechyd sicrhau bod gwasanaethau un pwynt mynediad yn cael eu gweithredu ledled Cymru a'u bod yn hygyrch i bawb sy'n profi argyfwng iechyd meddwl.



## Adolygiad o Ddiogelwch, Preifatrwydd, Urddas a Phrofiad Cleifion wrth Aros mewn Ambiwylansys pan fydd Oedi wrth Drosglwyddo Gofal

Canfu ein hadolygiad fod y mater o oedi hir wrth drosglwyddo gofal yn ddigwyddiad rheolaidd gydag amseroedd aros ambiwlansys y tu allan i Adrannau Achosion Brys ledled Cymru. Roedd yr oedi a'r amrywiadau yn y broses rhwng byrddau iechyd ac oddi mewn iddynt yn cael effaith andwyol ar allu'r system gofal iechyd i ddarparu gofal ymatebol, diogel ac urddasol i gleifion.

Er bod disgwyliadau a chanllawiau i GIG Cymru eu dilyn, ac ewyllys clir i gyflawni'r canllawiau hyn, mae heriau sylweddol ynghlwm wrth drosglwyddo cleifion yn amserol ledled Cymru sy'n atal ymdrechion i gyflawni'r rhain yn gyson. Mae'r heriau'n arwydd o broblemau'r llif cleifion ehangach ar draws pob ysbyty. Canfu ein tîm adolygu rai achosion o anghysondeb a diffyg eglurder rhwng Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru a staff Adrannau Achosion Brys ynghylch y cyfrifoldeb dros ofal cleifion, hyd nes bod gofal yn cael ei drosglwyddo i dimau'r byrddau iechyd. Roedd y mathau hyn o anghysondebau yn cynyddu risg ac yn cael effaith andwyol ar ofal a diogelwch cleifion.

Roedd cleifion yn gadarnhaol am eu profiadau, ar y cyfan, ac yn rhoi adborth da am griwiau ambiwlans a staff Adrannau Achosion Brys, ond ni ddylai hyn dynnu sylw oddi wrth y problemau sy'n gysylltiedig ag oedi wrth drosglwyddo gofal. Mae cryn dipyn o waith eisoes yn cael ei wneud ar draws GIG Cymru i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae cynnydd wedi'i wneud mewn rhai meysydd, ac mae gwaith gwella'n mynd rhagddo rhwng Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, y byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r heriau hyn.



## Adolygiadau parhaus cyfredol

### Adolygiad Cenedlaethol o Llif Cleifion (Llwybr Strôc)

Gall llif cleifion aneffeithiol ac aneffeithlon gael effaith sylweddol ar ansawdd a diogelwch gofal cleifion. O ganlyniad, rydym wedi penderfynu cynnal adolygiad cenedlaethol o'r llif cleifion.

Er mwyn asesu effaith heriau'r llif cleifion ar ansawdd a diogelwch cleifion sy'n aros am asesiad a thriniaeth, rydym wedi penderfynu canolbwyntio ein hadolygiad ar y llwybr strôc. Rydym am ddeall yr hyn sy'n cael ei wneud i liniaru unrhyw niwed i'r rheiny sy'n aros am ofal, yn ogystal â deall sut mae ansawdd a diogelwch gofal yn cael eu cynnal drwy'r llwybr strôc.

Dechreuodd y gwaith o gynllunio'r adolygiad yn ystod hydref 2021, a dechreuodd y gwaith maes ym mis Mawrth 2022. Drwy gydol ein hadolygiad, byddwn yn ystyried sut mae GIG Cymru yn mynd i'r afael â mynediad pobl at ofal aciwt ar yr adeg gywir ac os yw gofal yn cael ei dderbyn yn y lle iawn, ac yn cael ei roi gan bobl â'r sgiliau cywir, hyd at ryddhau cleifion o wasanaethau ysbyty yn amserol. Rydym am ddeall yr hyn sy'n cael ei wneud i liniaru unrhyw niwed i'r rheiny sy'n aros am ofal, yn ogystal â deall sut mae ansawdd a diogelwch gofal yn cael eu cynnal ar bob cam o'r llwybr strôc. Ein nod yw cyhoeddi adroddiad yr adolygiad yn ystod gaeaf 2022 - 2023.





### Adolygiad o Drefniadau Rhyddhau Cleifion sy'n Oedolion o Wasanaethau Iechyd Meddwl Cleifion Mewnol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Gwnaethom y penderfyniad i gynnal yr adolygiad hwn yn dilyn ein hasesiad o amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth a ddangosodd bod pryderon sylweddol ynghylch gwasanaethau iechyd meddwl o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Gwnaethom ddechrau'r adolygiad ym mis Ionawr 2022 a bydd yn parhau tan ddiwedd yr haf. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn 2022. Ffocws yr adolygiad yw archwilio ansawdd a diogelwch trefniadau rhyddhau cleifion, sy'n oedolion o unedau iechyd meddwl cleifion mewnol, yn ôl i'r gymuned.

### Adolygiad Lleol o'r Trefniadau Llywodraethu Ansawdd sydd ar Waith ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, ar gyfer Darparu Gwasanaethau Gofal Iechyd i Garchar Ei Mawrhydi Abertawe


Gwnaethom benderfynu cynnal adolygiad o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu ansawdd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

ar gyfer darparu a goruchwylio gwasanaethau gofal iechyd yn CEM Abertawe. Yn yr adolygiad, aseswyd y camau a gymerwyd gan y bwrdd iechyd i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd o ganlyniad i arolygiadau blaenorol gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, y gwnaethom gyfrannu atynt, a pha mor effeithiol yw trefniadau llywodraethu ansawdd y bwrdd iechyd o ran darparu gwasanaethau gofal iechyd i garchardai. Daeth ein hadolygiad i'r casgliad nad yw trefniadau llywodraethu ansawdd y bwrdd iechyd yn cefnogi'n ddigonol y gwaith o ddarparu gwasanaethau gofal iechyd diogel ac effeithiol o ansawdd da i boblogaeth CEM Abertawe.

Gwnaethom nodi bod angen cryfhau'r trefniadau hyn a chodi proffil gofal iechyd mewn carchardai o fewn y bwrdd iechyd er mwyn sicrhau bod ansawdd y gofal iechyd mewn carchardai yn cael ei gynllunio, ei ddarparu a'i fonitro'n effeithiol. Mae adroddiad yr adolygiad yn manylu ar ein canfyddiadau a'n hargymhellion ar gyfer gwella mewn sawl maes o'r bwrdd iechyd a'r Bwrdd Partneriaeth Carchardai.

Argymhellodd AGIC fod angen i ofal iechyd mewn carchardai, gan gynnwys ansawdd y gwasanaeth, gael lle mwy amlwg ar agenda ansawdd y bwrdd iechyd, fel y gellir darparu gofal diogel ac effeithiol i drigolion y carchar.

Gofynnodd AGIC i'r bwrdd iechyd a'r Bwrdd Partneriaeth Carchardai ystyried canfyddiadau'r adolygiad hwn yn ofalus a gweithredu ar yr argymhellion a nodir yn yr adroddiad. Mae AGIC yn parhau i weithio gyda'r bwrdd iechyd i sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud mewn modd amserol a bydd yn monitro'r cynnydd a wneir. Dosbarthwyd yr adroddiad i fyrddau iechyd eraill er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd, ac i ystyried y canfyddiadau yn erbyn eu trefniadau llywodraethu ansawdd eu hunain.



## Arolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA)

**Yn ystod 2021, gwnaethom weithio ar y cyd â phedair arolygiaeth arall ar ail adolygiad peilot o drefniadau amddiffyn plant. Cynhaliwyd yr adolygiad yn awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot sydd wedi'i leoli o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Cafodd ei arwain gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), ac roedd yn cynnwys AGIC, Estyn, Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaeth Tân ac Achub Ei Mawrhydi ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.**


Ffocws yr adolygiad oedd archwilio'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer yr ymateb aml-asiantaeth i blant sydd mewn perygl o gam-fanteisio troseddol a rhywiol. Ar ôl cwblhau'r adolygiad, gwnaethom nodi nifer o gryfderau allweddol ar draws y bartneriaeth aml-asiantaeth mewn perthynas â phrosesau, strwythurau a pherthnasoedd a helpodd i hwyluso gwaith partneriaeth effeithiol lle'r oedd plentyn mewn perygl o gael ei ecsbloetio. Gwnaethom hefyd nodi meysydd i'w gwella drwy gydol yr adolygiad, a oedd yn cynnwys yr angen i gryfhau diogelu cyd-destunol, a'r angen i leihau'r amseroedd aros ar gyfer asesiadau Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn dilyn atgyfeiriad.

Yn ystod chwarter olaf 2021 - 2022, cyflwynodd AGIC, AGC ac Estyn achos busnes ar y cyd i Lywodraeth Cymru i sicrhau cyllid ychwanegol i barhau â gwaith JICPA, i'n galluogi i adolygu prosesau o fewn pedwar awdurdod lleol arall ledled Cymru. Fel rhan o'r cynllun, byddem yn cwblhau gwaith mewn chwe awdurdod lleol pellach ac yn gwerthuso'r holl adolygiadau JICPA a gynhaliwyd er mwyn llunio adroddiad cenedlaethol, a fyddai'n cael ei gyhoeddi yn ystod haf 2024 pan fo'r holl waith wedi'i gwblhau. Mae cytundeb dros dro bellach ar waith ar gyfer cael y cyllid yn gynnar yn chwarter cyntaf 2022-2023.



## Gweithredu pan na chyrhaeddir safonau

Rydym yn gyfrifol am arolygu, adolygu ac ymchwilio i wasanaethau'r GIG a gwasanaethau gofal iechyd annibynnol ledled Cymru. Rydym yn arolygu gwasanaethau'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yn erbyn ystod o safonau, polisiâu, canllawiau a rheoliadau i amlygu meysydd sydd angen eu gwella. Pan ydym yn canfod nad yw hyn yn wir trwy ein gwaith, byddwn yn gweithredu fel bod byrddau iechyd a'u gwasanaethau yn gwybod lle mae angen iddynt wneud gwelliannau.



## Cyflwyno proses Cyflwyno Pryder ar gyfer Cyrff y GIG yng Nghymru

Un o'r blaenoriaethau allweddol a nodir yn ein **cynllun strategol** yw gweithredu pan na chyrhaeddir safonau. Yn unol â'r blaenoriaeth hon a chan ddymuno cynyddu tryloywder ynghylch sut yr ydym yn cyflawni ein rôl wrth roi sicrwydd i'r cyhoedd ynghylch ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd, rydym wedi cyflwyno proses Cyflwyno Pryder ar gyfer y GIG.

Ym mis Tachwedd 2021, gwnaethom gyflwyno proses Cyflwyno Pryder ar gyfer y GIG. Defnyddir y broses hon pan fyddwn yn nodi methiannau sylweddol yn y gwasanaeth, neu pan fo pryderon am wasanaeth neu leoliad yn cronni. Bwriad y broses yw cefnogi gwelliant a dysgu, ar gyfer y gwasanaeth dan sylw, ac ar draws gwasanaethau'r GIG yn ehangach. Mae ein proses uwchgyfeirio a gorfodi ar gyfer gofal iechyd annibynnol yn defnyddio proses o'r fath ar hyn o bryd.

Mae'n bosibl y bydd y broses yn ein harwain i wneud dynodiad Gwasanaeth sydd angen Gwelliant Sylweddol. Mae hyn yn ein galluogi i gynllunio a chyflwyno gweithgareddau angenrheidiol yn y dyfodol i gael sicrwydd ynghylch ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir gan wasanaeth. Wedyn, rydym yn gweithio gyda'r bwrdd iechyd a gwasanaethau i sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud, a champau gweithredu effeithiol yn cael eu cymryd mewn modd amserol. Yna byddwn yn ystyried ac yn adolygu p'un a ellir isgyfeirio'r gwasanaeth a'i dynnu o'r broses.

Mae'r broses hon yn galluogi amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys byrddau iechyd, i gymryd y camau cyflym angenrheidiol i sicrhau y gellir darparu gofal diogel ac effeithiol i bobl. Mae'r broses Cyflwyno Pryder wedi cryfhau'r camau rydym yn eu cymryd i ysgogi gwelliant pan fo safonau gwasanaethau yn sylweddol is na'r hyn sy'n ofynnol. Amlinellir enghreifftiau o'n defnydd o'r broses hon yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.





## AGIC yn cyflwyno rhybuddiad

Ym mis Chwefror 2022, yn dilyn ymchwiliad troseddol mewn perthynas â gwasanaeth nad oedd wedi'i gofrestru, cyflwynodd AGIC rhybuddiad ar gyfer tor amod yn adran 11 o Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Fel y rheoleiddiwr ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru, mae AGIC yn ymrwymedig i gymryd camau pan nad yw safonau'n cael eu bodloni. Er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol, mae'r defnydd o bwerau cyfreithiol y tro hwn yn amlygu sut y bydd AGIC yn cymryd camau pan nad yw darparwr gofal iechyd yn cydymffurfio â'r gofynion rheoliadol.

## Pryderon


Mae'r pryderon a gawn yn parhau i fod yn ffynhonnell wybodaeth amhrisiadwy i'r sefydliad ac ni ellir diystyru eu pwysigrwydd. Roedd rhywfaint o'r gwaith arolygu ar y safle a wnaethom yn ystod 2021 - 2022 o ganlyniad uniongyrchol i bryderon a godwyd gyda ni. Yn ogystal â'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chasglu'n uniongyrchol o'n gweithgareddau arolygu a'n gwiriad ansawdd, rydym hefyd wedi ceisio sicrwydd gan sefydliadau gofal iechyd mewn perthynas â'r pryderon a ddaeth i law.

Rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022, cawsom gyfanswm o 514 o bryderon. Cawsom 80 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, fod AGIC yn gweld y bu cynnydd parhaus yn nifer y pryderon a godwyd ers dechrau pandemig COVID-19. Rydym wedi gweld cynnydd o 40% yn nifer y pryderon a godwyd ers y flwyddyn 2019 - 2020.




Rydym wedi gweld cynnydd o 40% yn nifer y pryderon a godwyd ers y flwyddyn 2019 - 2020.

## Lleoliad pryderon




## Pryderon, Chwythu'r Chwiban a Diogelu

### Lefelau risg o bryderon a dderbyniwyd



- Mae pryderon risg uchel yn gofyn am weithredu ac ymateb ar unwaith o fewn 2 ddiwrnod gwaith, naill ai gan AGIC neu asiantaeth arall.
- Gall pryderon ar risg ganolig fod angen mewnbwn mwy uniongyrchol AGIC, a gall fod angen mewnbwn AGIC mwy uniongyrchol dylid gweithredu ymatebion o fewn 5 diwrnod gwaith.
- Pryderon risg isel yw'r pryderon hynny sy'n cael eu trin ar y cyfan gyda thrwy gyfrwng cyfeirio tuag at Rhoi Pethau'n lawn neu'r eu trefn ar gyfer proses gwynion lleol ar gyfer iechyd annibynnol dylid gweithredu darparwy ac ymatebion o fewn 7 diwrnod gwaith.

### Pryderon chwythu'r chwiban



### Pryderon chwythu'r chwiban



Derbyniwyd 25 o bryderon chwythu'r chwiban ar gyfer 2019 - 2020

Derbyniwyd 100 o bryderon chwythu'r chwiban ar gyfer 2020 - 2021

Derbyniwyd 61 o bryderon chwythu'r chwiban ar gyfer 2021 - 2022

Yn gyfan gwbl, cawsom 17 o bryderon risg uchel yn ystod 2021 - 2022. Cafodd yr holl bryderon risg uchel eu gwerthuso, gweithredwyd arnynt, a chawsant eu huwchgfyfeirio, a gofynnwyd am sicrwydd gan fyrdau / ymddiriedolaethau iechyd neu leoliadau gofal iechyd annibynnol. Pan oedd yn briodol, gwnaethom gysylltu â'r tîm diogelu lleol hefyd a rhannu unrhyw bryderon diogelu roeddem efallai wedi'u nodi. Ar adegau, rydym hefyd wedi gorfod rhannu gwybodaeth â'r gwasanaethau brys, megis yr heddlu, oherwydd natur y pryderon a godwyd neu oherwydd pryderon am lesiant unigolyn.

Cafwyd pryderon gan amrywiaeth o unigolion, gan gynnwys cleifion, eu teuluoedd, ffrindiau, staff, a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, rhieni, cleifion ac ati. Mae'n bwysig nodi bod 61 o'r pryderon a dderbyniwyd wedi dod o chwythwyr chwiban, ac o'r rhain, roedd 37 yn ymwneud â byrdau / ymddiriedolaethau iechyd y GIG a 24 yn ymwneud â lleoliadau gofal iechyd annibynnol. Roedd y themâu cyffredin a nodwyd o'r pryderon a dderbyniwyd yn ymwneud â dau faes allweddol yn bennaf. Roedd y grŵp cyntaf o bryderon yn ymwneud ag asesiadau clinigol a thriniaeth. Roedd yr ail grŵp o bryderon yn ymwneud â seilwaith, staffio a chyfleusterau.



# 404

o atgyfeiriadau diogelu  
gan awdurdodau lleol


Cawsom gyfanswm o 404 o atgyfeiriadau diogelu gan awdurdodau lleol.

Awdurdodau lleol a'r heddlu yw'r arweinydd statudol ar gyfer pob atgyfeiriad diogelu a nhw sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ar gamau gweithredu. Gwahoddir AGIC i gyfarfodydd strategaeth cychwynnol pan y gallwn gael mewnbwn i unrhyw gamau gweithredu posibl a gymerir. Rydym hefyd yn adolygu'r holl atgyfeiriadau a gyflwynir, a rhennir yr wybodaeth yn fewnol â rheolwyr perthynas er gwybodaeth. Rheolwyr perthynas yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer staff AGIC a byrddau / ymddiriedolaethau iechyd. Maent hefyd yn arwain y gwaith o benderfynu ar y gweithgarwch arolygu a sicrwydd ym mhob bwrdd iechyd. Os oes angen cymryd camau pellach, byddwn yn ysgrifennu at y byrddau / ymddiriedolaethau iechyd neu leoliad gofal iechyd annibynnol ac yn gofyn am sicrwydd neu hysbysiad rheoleiddio pan fo'n berthnasol.

## Hysbysiadau rheoliadol

Mae'n ofynnol i ddarparwyr gofal iechyd annibynnol ein hysbysu am ddiwyddiadau a datblygiadau arwyddocaol yn eu gwasanaeth wrth gyflwyno hysbysiadau yn erbyn Rheoliad 30/31 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.


Cawsom gyfanswm o 1,484 o hysbysiadau o dan Reoliad 30/31. Mae dadansoddiad o'r hysbysiadau fel a ganlyn:



Mae hyn yn **gynnydd o 36%** yn nifer yr hysbysiadau a gawsom, o gymharu â 2020-2021. Mae nifer yr anafiadau difrifol a adroddwyd wedi cynyddu'n sylweddol, gan 72%, dros y flwyddyn ddiwethaf.

Cawsom gyfanswm o 156 o hysbysiadau o dan Reoliad 25 (Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017) yn ystod 2021 - 2022.

Maent fel a ganlyn:



Caiff pob hysbysiad ei adolygu gan reolwr achos ar adeg eu cyflwyno a'u hadolygu'n wythnosol gan y tîm ymchwilio. Ar gyfer pob hysbysiad a gyflwynir, rydym yn gofyn am wybodaeth ddilynol i roi sicrwydd bod y digwyddiad wedi'i drin yn briodol a bod y lleoliad wedi ceisio lliniaru'r risg y -bydd digwyddiadau tebyg yn digwydd eto. Pan nodir themâu tebyg, rydym yn trosglwyddo'r wybodaeth i'r tîm gorfodi ac mae'r llwybr uwchgyfeirio a gorfodi yn dechrau.



## Adolygiadau o farwolaethau yn y ddalfa

Cyfrifoldeb yr Ombwdsmon Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf (PPO) yw cynnal ymchwiliad i bob marwolaeth sy'n digwydd mewn carchar neu safle cymeradwy yng Nghymru. Mae AGIC yn cefnogi'r ymchwiliadau hyn drwy gynnal adolygiad clinigol o bob marwolaeth o fewn carchar neu safle cymeradwy yng Nghymru. Mae'r cydweithio hwn wedi'i amlinellu'n ffurfiol mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng yr Ombwdsmon Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf ac AGIC. Gellir dod o hyd i ddolen i'r cytundeb [yma](#).

Diben ein hadolygiadau clinigol yw archwilio a gwerthuso'n feirniadol ansawdd y gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir i garcharorion yn ystod eu hamser mewn carchar neu safle cymeradwy.

Rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, cawsom ein comisiynu gan yr Ombwdsmon Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf i gynnal 15 adolygiad clinigol. Mae hyn un yn llai o gymharu â 2020 - 2021. Cynhaliwyd yr adolygiadau clinigol hyn mewn pedwar o'r chwe carchar yng Nghymru. Ni chynhaliwyd unrhyw adolygiadau clinigol mewn perthynas â CEM Prescoed na CEM Brynbuga.

Mae'r tabl isod yn nodi nifer yr adolygiadau a'u lleoliadau:

Lleoliad	Cyfanswm
CEM y Parc	7
CEM Berwyn	2
CEM Caerdydd	5
CEM Abertawe	1

Yn gyffredinol, amlygodd ein hadolygiadau o farwolaethau yn y ddalfa fod y gofal a ddarperir i garcharorion yng Nghymru yn gyfartal â'r lefel ddisgwyliedig o ofal y byddai unigolyn yn y gymuned yn ei dderbyn. Barnwyd bod mynediad at feddygon teulu, staff nyrsio a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn ddigonol yn y mwyafrif helaeth o'n hadolygiadau.

Ym mhob un o'n hadolygiadau clinigol gwnaethom nodi gwelliannau a thynnu sylw at arferion da. Amlygwyd dau faes allweddol ar gyfer gwella, sef yr angen i sicrhau bod dogfennaeth gynhwysfawr a manwl yn cael ei chwblhau ar gyfer pob claf a gwelliant o ran cynnal ymchwiliadau, megis profion gwaed a phelydr-X, yn amserol.

Mae cadw cofnodion da yn rhan hanfodol o ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Mae cofnod cywir wedi'i ddogfennu sy'n manylu ar bob agwedd ar ofal a thriniaeth y claf yn hanfodol oherwydd ei fod yn cyfrannu at ledaenu gwybodaeth ymhlith gwahanol ymarferwyr gofal sy'n ymwneud â thriniaeth neu ofal y claf. Maes penodol o ddogfennaeth y nodwyd bod angen ei wella oedd cofnodi arsylwadau corfforol fel rhan o asesiadau cleifion. Mae'r arsylwadau hyn yn rhoi mewnwelediad sylweddol i gyflwr iechyd claf, a gallant dynnu sylw ymarferwyr at ddirywiad clinigol unigolyn.

Cydnabuwyd bod oedi weithiau cyn i garcharorion gael profion gwaed a phelydr-X. Nodwyd nifer o ffactorau a all effeithio ar gynnal yr ymchwiliadau hyn yn brydlon, megis trafndiaeth a ph'un a yw staff penodol ar gael. Yn ogystal, nodwyd gwendidau wrth hysbysu staff gofal iechyd pan nad oedd carcharor wedi mynychu apwyntiad. Mae angen i'r pwysigrwydd o gydnabod yr apwyntiadau hyn a gollwyd gael ei wreiddio'n glir mewn polisiâu a gweithdrefnau, a'i uwchgyfeirio yn unol â hynny, i sicrhau bod unigolion yn cael yr ymchwiliadau gofynnol.

Amlygodd ein hadolygiadau clinigol fod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio mewn carchardai yn llawn cymhelliant, yn ymroddedig ac yn ymroddgar. Roedd tystiolaeth yn dangos bod staff yn ymdrechu i ddarparu lefelau uchel o ofal cyfannol a thriniaeth i'w cleifion.

Darparodd canfyddiadau AGIC bersbectif gwahanol yn dilyn adolygiad o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu ansawdd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar gyfer darparu a goruchwylio gwasanaethau gofal iechyd yn CEM Abertawe. Daeth ein hadolygiad i'r casgliad nad yw trefniadau llywodraethu ansawdd y bwrdd iechyd yn cefnogi'n ddigonol y gwaith o ddarparu gwasanaethau gofal iechyd diogel ac effeithiol o ansawdd da i boblogaeth y carchar. Rydym wedi nodi bod angen codi proffil gofal iechyd mewn carchardai o fewn y bwrdd iechyd er mwyn sicrhau bod ansawdd gofal iechyd yn ei gynllunio, ei ddarparu a'i fonitro'n effeithiol. Argymhellodd AGIC fod angen i'r gofal iechyd a ddarperir mewn carchardai gael lle mwy amlwg ar agenda ansawdd y bwrdd iechyd, fel y gellir darparu gofal diogel ac effeithiol i drigolion y carchar.



## Canfyddiadau sicrwydd ac arolygiadau


Gwnaethom barhau i gyflawni ymagwedd gyfunol tuag at sicrwydd ac arolygu drwy gynnal archwiliadau ar y safle a gwiriadau ansawdd o bell. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu a gwella methodolegau cyfredol, sef yr offerynnau a ddefnyddir i wneud gwaith arolygu a sicrwydd. Parhaodd yr holl fethodolegau i gynnwys ffocws penodol ar COVID-19.

### Ysbytai

Parhaodd COVID-19 i effeithio ar y ffordd y gwnaethom arolygu a cheisio sicrwydd yn ysbytai'r GIG drwy gydol 2021 - 2022. Yn ystod gaeaf 2021, parhaodd cyfraddau trosglwyddo COVID-19 i gynyddu, gan gynnwys ymddangosiad yr amrywiad Omicron. Roedd yn bwysig inni ddilyn dull gofalus i leihau'r baich ar y gwasanaethau yr effeithir arnynt fwyaf. Felly drwy gydol mis Rhagfyr a mis Ionawr, gwnaethom ganslo'r holl waith arolygu arferol ar safleoedd y GIG. Gwnaethom barhau i gynnal gwaith arolygu ar y safle pan oeddem o'r farn bod risg uchel i ddiogelwch cleifion o ganlyniad i faterion penodol yr oeddem yn ymwybodol ohonynt a phan nad oedd yn bosibl cael sicrwydd o bell.

Gwnaethom gwblhau'r holl waith arall yn ystod y cyfnod hwn o bell. Ym mis Chwefror 2022, gwnaethom aildechrau ein holl arolygiadau arferol ar safleoedd y GIG ar ôl i'r lefel rhybudd gael ei newid i sero ledled Cymru ac yn sgil y gostyngiad cyffredinol yng nghyfraddau COVID-19. Gwnaethom roi 24 awr o rybudd ar gyfer arolygiadau o feysydd gofal dewisol, wedi'u hamserlennu lle mae llif cleifion wedi'i gynllunio, ac mae rhagofalon COVID-19 wedi'u strwythuro o amgylch cleifion sy'n cael eu derbyn ar gyfer llawdriniaeth wedi'i chynllunio, neu lle mae cleifion ag imiwnedd gwan oherwydd y driniaeth y maent yn ei derbyn ac mewn gwasanaethau mamolaeth. Gwnaeth hyn hi'n bosibl i'n timau arolygu gyfathrebu â staff y GIG ac i drefniadau gael eu rhoi ar waith er mwyn cynnal yr arolygiad yn ddiogel. Gwnaethom barhau i gynnal arolygiadau dirybudd o feysydd clinigol mewn meysydd gofal a heb ei drefnu.

Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom gynnal y canlynol:





O'r wyth arolygiad ar y safle a gwblhawyd gennym, roedd dau o'r rheini wedi'u categorio'n Llwybr 'Gwyrdd'<sup>1</sup>.

Roedd ein harolygiadau ar y safle a'n gwiriadau ansawdd yn cwmpasu amrywiaeth o wahanol fathau o wardiau ysbyty gan gynnwys adrannau achosion brys, wardiau mamolaeth, wardiau oncoleg, wardiau cardiaidd, unedau pediatrig, cyfleusterau cam-i-lawr ac un uned mân anafiadau.

Roedd yn amlwg, o'r gwaith a wnaed drwy gydol y flwyddyn, fod y system gofal brys dan bwysau sylweddol a pharhaus, a bod hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar ofal cleifion. Drwy ein gwaith arolygu a sicrwydd, gwnaethom nodi gwahaniaeth clir rhwng gofal wedi'i drefnu a gofal heb ei drefnu. Nodwyd llawer mwy o feysydd gennym yr oedd angen eu gwella o ran gofal heb ei drefnu o gymharu â gofal wedi'i drefnu. Yn benodol, roedd llai o feysydd i'w

gwella mewn meysydd gofal wedi'i drefnu, fel wardiau oncoleg a chardiaidd, lle mae gan y staff fwy o reolaeth dros dderbyniadau a'u bod yn gallu darparu mwy o ofal sy'n canolbwyntio ar y claf.


Er bod yr ymatebion a gawsom i'n holiaduron staff yn nodi morâl isel ymhlith y staff, yn enwedig mewn perthynas â heriau ynghylch niferoedd staffio a galw mawr am wasanaethau, nid oedd yn ymddangos bod hyn yn effeithio ar y profiad a gafodd cleifion o'r staff, yn gyffredinol. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn garedig ac yn dosturiol.

Parhaodd ein harolygiadau i nodi lefelau isel o gydymffurfedd â hyfforddiant gorfodol i staff. Mae hyfforddiant gorfodol yn chwarae rhan allweddol o ran sicrhau bod staff yn gallu darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

<sup>1</sup>Y Llwybr Gwyrdd yw'r term a roddir i ardaloedd sy'n rhydd rhag COVID-19 mewn ysbyty. O fewn y llwybr mae llwybrau penodol megis llwybrau llawfeddygol. Gall y mesurau a gymerir gynnwys asesu cleifion fel pobl nad oes ganddynt unrhyw risg o COVID-19 ar hyn o bryd, a gofyn i gleifion y mae llawdriniaeth wedi'u threfnu ar



Mae rheoli meddyginiaethau yn parhau i fod yn bryder i AGIC, oherwydd ein bod wedi nodi materion ar draws ein holl arolygiadau o ysbytai mewn perthynas â'r canlynol:



Drwy ein gwaith, rydym yn cael profiadau o lawer o feysydd clinigol. Rydym yn dod ar draws cleifion sy'n derbyn eu gofal o fewn ac oddi wrth wasanaethau, a phan fo ymweliadau'n bosibl, rydym hefyd yn cyfarfod â pherthnasau, gofalmwyr ac eraill sy'n ymwneud â bywydau'r cleifion i ffwrdd o ofal iechyd. Rydym hefyd yn dod ar draws y staff sy'n gweithio yn y gwasanaethau o ddydd i ddydd: staff therapi y mae eu gwaith yn mynd â nhw i adrannau i gynorthwyo â materion penodol, staff cadw tŷ y mae eu mewnbyn yn cefnogi adrannau i redeg yn esmwyth, a rheolwyr ac uwch-arweinwyr sy'n llywodraethu ac yn arwain yn ddyddiol i sicrhau bod gwasanaethau'n cyflawni ac yn cynnal safonau, a lle bo'n angenrheidiol, eu gwella.

Rydym wedi arsylwi gwasanaethau ar adegau o bwysau sylweddol, a gweld bod y staff ynddynt yn gweithio'n ddiflino i ddarparu gofal. Rydym wedi gweld gwasanaethau ar adegau pan nad yw'r pwysau'n sylweddol, ond mae staff yn dal i weithio'n galed i ddarparu gofal. Rydym yn cydnabod yr her a'r straen y gall pwysau uchel parhaus ei achosi. Mae'r astudiaethau achos isod yn dangos y ffordd y gwnaethom barhau i ganolbwyntio ar ddiogelwch cleifion yn ystod 2021 - 2022, gan herio gwasanaethau a byrddau iechyd i chwilio am ffyrdd gwahanol o wneud pethau pan ellid gwella canlyniadau i gleifion.



## Astudiaeth Achos - Arolygiad o'r Adran Achosion Brys, Ysbyty'r Tywysog Siarl, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Yn yr astudiaeth achos ganlynol, rydym wedi canolbwyntio ar ganfyddiadau a chanlyniad arolygiad a gynhaliwyd gennym o'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty'r Tywysog Siarl. Mae'r enghraifft hon o'n gwaith yn dangos adran sy'n gweithio dan bwysau sylweddol sy'n arwain at faterion yn ymwneud â diogelwch cleifion. Roedd yr hyn a ddigwyddodd nesaf yn enghraifft o fwrdd iechyd yn gweithio'n ymatebol ac yn adeiladol i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd yn ein gwaith. Drwy ymateb yn y modd hwn, gwnaed cynnydd cynnar o ran gwella diogelwch cleifion a chanlyniadau i gleifion.

Yn ystod ein harolygiad ym mis Medi 2021, canfuom fod yr Adran Achosion Brys, fel y drws ffrynt i system gofal iechyd ehangach, yn profi cyfnod o bwysau cynyddol oherwydd y galw mawr am wasanaethau. Roedd y llyf cleifion ar draws yr ysbyty yn amlwg yn broblem. Gwnaethom gydnabod bod hwn yn amgylchedd heriol iawn a oedd yn rhoi llawer o straen ar staff, a oedd yn parhau i fynd y tu hwnt i'r disgwyl mewn amgylchiadau eithriadol a heriol.

Datgelodd yr arolygiad faterion helaeth yn ymwneud â diogelwch cleifion, gan olygu na allem fod yn sicr bod cleifion a oedd yn mynychu'r adran achosion brys yn

derbyn gofal diogel. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud â threfniadau atal a rheoli heintiau annigonol, trefniadau aneffeithiol ar gyfer gwahanu cleifion â COVID-19, defnydd amhriodol neu anghywir o gyfarpar diogelu personol, a nifer o ffactorau amgylcheddol a oedd yn effeithio ar allu staff i ddarparu gofal diogel ac urddasol. Roedd yr adran a'r uned lle cynhelir asesiadau meddygon teulu yn gwbl orlawn i lefel a oedd yn effeithio ar urddas a diogelwch y cleifion. Nid oedd digon o staff yn yr ardal bediatrig ac nid oedd yr amgylchedd yn addas ar gyfer darparu gofal diogel ac urddasol. Nid oedd y cleifion bob amser yn cael eu monitro ar amllder a fyddai'n nodi dirywiad a newidiadau yn eu cyflwr. Datgelodd ein trafodaethau â staff bryderon am eu llesiant hefyd, oherwydd yr amgylchedd yr oeddent yn gweithio ynddo.

Gwnaethom ddefnyddio ein proses Sicrwydd Ar Unwaith, lle rydym yn ysgrifennu'n ffurfiol at fwrdd iechyd ar unwaith ar ôl yr arolygiad, i amlinellu'r camau adfer brys yr oedd angen eu cymryd i sicrhau diogelwch cleifion. **Gwnaeth ein hadroddiad arolygu llawn** nodi'r gwelliannau tymor hwy yr oedd eu hangen.

Roedd staff allweddol yn y bwrdd iechyd yn gadarnhaol yn eu hymateb i'n hadborth, ac yn ein hymgysylltiad dilynol, ac roedd ganddynt ymrwymiad clir i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd. Roedd ymatebion y bwrdd iechyd yn cynnwys cyfres gynhwysfawr o gamau gweithredu, gyda llawer o gynnydd eisoes wedi'i wneud ar adeg cyhoeddi ein hadroddiad.

Oherwydd arwyddocâd y materion a ganfuwyd yn yr arolygiad, gwnaethom gynnal [arolygiad dilynol ym mis Ionawr 2022](#).

Ar adeg yr arolygiad dilynol, canfuom fod yr Adran Achosion Brys yn parhau i brofi cyfnod o bwysau cynyddol oherwydd y galw mawr am wasanaethau. Unwaith eto, gwnaethom gydnabod bod hwn yn parhau i fod yn amgylchedd heriol a oedd yn peri llawer o straen i rai aelodau o staff, a oedd yn parhau i fynd y tu hwnt i'r disgwyl mewn amgylchiadau eithriadol a heriol. Er bod angen rhoi sylw i rai meysydd o hyd, nid oedd unrhyw faterion brys yn ymwneud â diogelwch cleifion.

Roedd ymrwymiad clir i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd yn yr arolygiad cychwynnol, a chanfuom fod y bwrdd iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r gwelliannau a godwyd mewn ffordd gynaliadwy, yn hytrach na cheisio atebion cyflym i faterion na ellir eu cynnal. Mae'r canlyniad cyflym a chadarnhaol a gyflawnwyd yn yr enghraifft hon yn werth ei nodi, a chafodd hyn ei gyflawni drwy arddull adeiladol a chefnogol a fabwysiadwyd gan uwch-arweinwyr wrth gefnogi staff yn yr adran. Teimlai'r staff fod cyfrifoldeb ar y cyd dros sicrhau gwelliant. Rhoddodd ein gwaith fewnwelediad i heriau yn yr adran, a bydd hyn yn cefnogi'r bwrdd iechyd i barhau i wella'r gofal a ddarperir gan yr Adran Achosion Brys. Canlyniad ein gwaith ac ymdrech y bwrdd iechyd oedd gwella diogelwch cleifion yn yr adran.

## Astudiaeth Achos - Gwiriad Ansawdd Uwch o Ysbyty Glan Clwyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Ym mis Mai 2022, gwnaethom ddynodi'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Glan Clwyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fel Gwasanaeth sydd angen Gwelliant Sylweddol.

Roedd y dynodiad hwn yn seiliedig ar gasgliad o dystiolaeth lle nododd AGIC risgiau penodol yn dilyn Hysbysiad Dim Syndod ym mis Ionawr 2022, yn ymwneud â gollyngiad anniogel posibl o'r Adran Achosion Brys. Yn anffodus, canfuwyd bod claf wedi marw ar ôl y gollyngiad. Yn dilyn sicrwydd annigonol gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i ohebiaeth gychwynnol AGIC, cynhaliodd AGIC adolygiad manwl o'r nodiadau achos ar gyfer y claf o dan sylw. Amlygodd yr adolygiad hwn nifer o bryderon a phryderon sylweddol o ran diogelwch cleifion. Darparwyd adborth ar hyn i'r bwrdd iechyd a rhoddwyd sicrwydd i AGIC ynghyd â chamau gweithredu i gadarnhau bod gofal a thriniaeth diogel yn cael eu darparu ar yr adeg hon.

Wedi hynny, cwblhaodd AGIC wiriad ansawdd uwch o'r adran ym mis Mawrth 2022. Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent

yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal.

Oherwydd y materion a nodwyd ym mis Ionawr 2022, gwnaethom ehangu ein methodoleg arferol i geisio sicrwydd ynghylch sut mae'r bwrdd iechyd yn sicrhau bod cleifion yn cael gofal, a'u bod yn cael eu rhyddhau, yn ddiogel.

Nododd ein gwaith nifer o faterion yn ymwneud â diogelwch cleifion. Gwnaethom gyhoeddi llythyr Sicrwydd ar Unwaith, lle rydym yn ysgrifennu at y bwrdd iechyd ar unwaith ar ôl y gwiriad ansawdd, yn amlinellu camau adfer brys i sicrhau diogelwch cleifion. Er bod y bwrdd iechyd wedi ymateb yn gadarnhaol gyda chynllun gweithredu manwl, oherwydd difrifoldeb y materion a nodwyd, roedd AGIC yn parhau i bryderu am ddiogelwch cleifion yn yr adran yn ehangach. O ganlyniad, gwnaethom gynnal arolygiad llawn ar y safle ym mis Mai 2022 er mwyn arolygu'r amgylchedd gofal llawn, a sicrhau bod y camau gweithredu a nodir yn ymateb y bwrdd iechyd i wiriad ansawdd mis Mawrth wedi'u cwblhau a'u cynnal.

Nododd ein harolygiad ar y safle ragor o faterion yn ymwneud â diogelwch cleifion. Nodwyd meysydd gennym hefyd lle roedd camau gweithredu'r bwrdd iechyd mewn ymateb i'r wiriad ansawdd mis Mawrth wedi bod yn aneffeithiol. Gwnaethom uwchgyfeirio ein pryderon i staff uwch yn y bwrdd iechyd yn ystod yr arolygiad, yn ogystal ag yn ystod ein cyfarfod adborth safonol ar ddiwedd yr arolygiad. Cawsom sicrwydd llafar gan y bwrdd iechyd ar gamau gweithredu a fyddai'n sicrhau diogelwch cleifion, a gwnaethom gyflwyno llythyr Sicrwydd ar Unwaith arall ar 9 Mai 2022.

Ar ôl ystyried y canfyddiadau a'r dystiolaeth a gasglwyd ers mis Ionawr 2022, penderfynodd AGIC nad oedd y bwrdd iechyd wedi gallu dangos cynnydd digonol yn erbyn nifer o feysydd allweddol a oedd yn peri pryder yn ymwneud â diogelwch cleifion ac ansawdd y gofal, ac roedd pryder penodol ynghylch safon wael y dogfennau nyrsio. Amlygodd ein harolygiad ar y safle ym mis Mai 2022 nad oedd y bwrdd iechyd wedi dangos gwelliant i safon dderbyniol mewn ymateb i'r materion Sicrwydd ar

Unwaith a nodwyd yn ystod gwiriad ansawdd mis Mawrth 2022. At hynny, nododd arolygiad mis Mai 2022 sawl maes ychwanegol o bryder yn ymwneud â diogelwch cleifion. O ganlyniad, roeddem yn pryderu bod risg i ddiogelwch cleifion a oedd yn ceisio gofal yn yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty Glan Clwyd.

O ganlyniad i ddynodi Adran Achosion Brys Ysbyty Glan Clwyd fel Gwasanaeth sydd angen Gwelliant Sylweddol alluogi, roedd AGIC yn gallu cynllunio a chyflwyno unrhyw weithgareddau angenrheidiol yn y dyfodol i gael sicrwydd am ansawdd a diogelwch gofal yn y gwasanaeth. Mae'r broses hon yn ystyried amseriad unrhyw weithgareddau dilynol, er mwyn galluogi AGIC i benderfynu p'un a ellir isgyfeirio'r gwasanaeth a'i ddileu o'r broses hon.

## Ymarfer Cyffredinol



Gwnaethom barhau i ddefnyddio gwiriadau ansawdd i geisio sicrwydd ynghylch ansawdd y gofal a ddarperir gan bractisau meddygon teulu yn ystod 2021 - 2022. Parhaodd ein gwiriadau ansawdd gyda ffocws penodol ar COVID-19. Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom gynnal 25 o wiriadau ansawdd o bractisau meddygon teulu ar draws byrddau iechyd yng Nghymru.

Roedd yn gadarnhaol nodi o'n gwaith sicrwydd fod tystiolaeth dda bod practisau meddygon teulu yn defnyddio'u haelodaeth o glwstwr<sup>2</sup> i gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal i gleifion a

rhannu syniadau ac arferion da rhwng practisau meddygon teulu.

Gwnaethom nodi bod y rhan fwyaf o bractisau meddygon teulu wedi gwneud newidiadau sylweddol i amgylcheddau eu practisau i sicrhau eu bod yn ddiogel i gleifion a bod modd eu glanhau'n hawdd mewn ymateb i heriau pandemig COVID-19.

Fodd bynnag, roedd yn siomedig darganfod bod diffyg polisiau glanhau ac amserlenni glanhau llawn mewn nifer o bractisau meddygon teulu. Gwelsom hefyd fod diffyg asesiadau risg wedi'u cwblhau mewn rhai practisau ar gyfer ymweliadau â chartrefi, staff y practis a'r amgylchedd. Mae polisiau ac asesiadau risg yn offerynnau rheoli sy'n helpu i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r hyn a ddisgwyllir ohonynt, gellir eu defnyddio i helpu i nodi a sicrhau arferion diogel, a gallant helpu i gynnal cysondeb mewn safonau a chefnogi gwelliannau mewn ansawdd. Lle mae'r offer hyn yn absennol neu heb eu diweddarau, mae'n dangos bod gwendid mewn arferion rheoli, ac mae hyn yn peri pryder. Dylai practisau meddygon teulu ac arweinwyr gofal sylfaenol o fewn byrddau iechyd sicrhau bod prosesau a systemau ar waith i gefnogi rheolaeth effeithiol ar y gwasanaethau hyn.

Gwnaethom nodi bod thema yn ein gweithgareddau a'n gwybodaeth yn ymwneud â hygyrchedd ac argaeledd apwyntiadau wyneb yn wyneb. Roedd hyn yn dangos, er bod practisau yn gwneud eu gorau i adennill gwasanaethau yr effeithiwyd arnynt gan y pandemig, roedd problemau mynediad yn parhau. Dywedodd pobl wrthym na allent gael apwyntiadau pan oedd eu hangen arnynt bob amser, a'u bod yn ei chael yn anodd mewn rhai ardaloedd i gael mynediad at bractisau dros y ffôn. Canfuom hefyd fod elfen o allgau digidol wedi parhau, gyda rhai pobl yn methu â chael mynediad cyfartal at wasanaethau oherwydd bod ffocws ar gynnal ymgynghoriadau ar-lein a thros y ffôn. Canfuom fod practisau wedi parhau i ymateb yn dda i heriau'r pandemig. Roedd hyn yn cynnwys rhyddhau staff i ddarparu cymorth hanfodol i raglenni brechu a chlinigau. Roedd nifer o feysydd wedi datblygu dulliau arloesol o reoli ymgynghoriadau a bodloni gofynion eu cymunedau. O ganlyniad, rydym wedi ailgynllunio ein methodoleg ar gyfer arolygiadau meddygon teulu ac wedi cyflwyno adolygwyr cymheiriaid newydd i'r broses hon. Bydd hyn yn sicrhau bod AGIC yn aros yn gyfredol â'r datblygiadau yn y sector hwn.

<sup>2</sup> Grŵp o feddygfeydd teulu sy'n gweithio gyda'i gilydd i gyfuno adnoddau a rhannu arferion gorau mewn ymgais i helpu cleifion i barhau'n heini a yn iach, ac i wella'r ffordd mae cleifion yn cael gofal os ydyn nhw'n mynd yn sâl.



## Iechyd Meddwl

Rydym yn edrych ar sut mae gwasanaethau iechyd meddwl a gofal iechyd meddwl annibynnol y GIG yn bodloni

ac yn cydymffurfio ag ystod o safonau a chanllawiau proffesiynol, gan gynnwys Deddf Iechyd Meddwl 1983 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Mae darparu gofal iechyd meddwl yn ystod y pandemig wedi bod yn heriol a chymhleth i'r GIG ac i ddarparwyr gwasanaethau gofal iechyd annibynnol. Gwnaethom barhau i ddefnyddio cymysgedd o wiriadau ansawdd o bell ac arolygiadau ar y safle ar gyfer ein gwaith mewn lleoliadau gofal iechyd meddwl. Roedd y dull hybrid hwn yn ein galluogi i geisio sicrwydd gan

wasanaethau ar adeg pan oedd y trothwy risg ar gyfer cynnal ymweliadau arolygu yn uchel, ac roedd cynnal ein gwaith ar y safle pan oedd naill ai'r risg o COVID-19 yn is, neu pan oedd y risg i ddiogelwch cleifion o bwys sylweddol. Parhaodd ein Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl (RSMH) yn ystod y cyfnod hwn, yn ogystal â'n prosesau pryderon a hysbysu. Gwnaethom hefyd barhau i ymateb i gleifion mewn lleoliadau iechyd meddwl a gysylltodd â ni yn ystod y cyfnod hwn.

Dros y 12 mis diwethaf, dangosodd ein gwaith sicrwydd nifer o themâu allweddol ar draws ystod o leoliadau mewn perthynas â gofal iechyd meddwl. Mae iechyd meddwl yn faes heriol a chymhleth, ac amlygodd arolygiadau fod angen i staff ymyrryd yn aml i reoli ymddygiadau cleifion a sicrhau eu diogelwch, yn hytrach na darparu gofal a thriniaeth bwrpasol

Yn ystod 2021 - 2022 gwnaethom gynnal y canlynol:



5

Ysbyty iechyd meddwl y GIG



1

Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol (CMHT)

14

Ysbyty iechyd meddwl annibynnol

7

Ysbyty iechyd meddwl y GIG



### Amlygodd arolygiadau hefyd achosion o'r canlynol:

- Nid oedd hyfforddiant gorfodol i staff wedi'i gwblhau neu'n gyfredol
- Roedd y dull o reoli meddyginiaeth yn wael, gan gynnwys siartiau gweinyddu anghyflawn a meddyginiaeth yn cael ei storio'n anghywir
- Risgiau'n cael eu nodi ac yna ddim yn cael sylw mewn modd amserol neu ddim yn cael sylw o gwbl
- Gorddibyniaeth ar ddefnyddio staff asiantaeth a sawl cyfnod pan fu adnoddau'n annigonol
- Cynlluniau gofal a thriniaeth ddim yn cael eu monitro na'u diweddarau'n rheolaidd
- Diffyg goruchwyliaeth lywodraethu, gan gynnwys cydweithio a rhannu gwybodaeth ar gyfer gwelliant yn y dyfodol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, canfuom fod staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau sy'n darparu gofal a thriniaeth iechyd meddwl yn trin cleifion â charedigrwydd a pharch. Gwelsom hefyd fod y rhan fwyaf o wasanaethau yn parhau i weithio'n dda i addasu i'r anghenion newidiol a gyflwynodd y pandemig. Roedd cleifion yn derbyn gofal tosturiol yn y rhan fwyaf o achosion a oedd yn hybu eu hannibyniaeth a'u hymreolaeth. Gwelsom hefyd fod yr adferiad yn sgil y pandemig yn mynd yn dda mewn rhai achosion, a bod gwelliannau wedi'u gwneud ers arolygiadau blaenorol.

Yn ystod 2021 - 2022, gwnaethom arolygu dwy o'r tair uned iechyd meddwl plant a'r glasoed yng Nghymru, sef Tŷ Llidiard ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ac Ysbyty Hillview yng Nglynebwy.

## Anabledd dysgu

5

Arolygiadau  
ar y safle

8

Gwiriad ansawdd



Cynhaliodd AGIC saith gwiriad ansawdd a phum arolygiad o gyfleusterau sy'n darparu gwasanaethau anabledd dysgu. Yn y rhan fwyaf o achosion, canfuom fod cleifion a oedd yn

cael gofal yn y cyfleusterau hyn yn cael gofal a thriniaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn dosturiol. Roedd cynlluniau gofal wedi'u teilwra ar waith a oedd yn galluogi staff a chleifion i weithio tuag at nodau cyffredin er budd cleifion. Gwelsom fod y staff yn rhyngweithio â chleifion mewn modd caredig a thosturiol ac yn gweithio'n galed i ddiwallu anghenion cleifion. Fodd bynnag, canfuom nad oedd y niferoedd o staff bob amser ar lefel a oedd yn diwallu anghenion cleifion. Gwelsom hefyd fod pandemig COVID-19 wedi effeithio'n negyddol ar hybu annibyniaeth yn rhai o'r lleoliadau hyn. Mewn un achos, gwelsom fod problemau sylweddol yn ymwneud ag amgylchedd, llywodraethu a diogelwch yr uned. O ganlyniad, cyflwynwyd llythyr Sicrwydd ar Unwaith, a gweithredodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda welliannau sylweddol.

## Y gwasanaeth Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn

Mae AGIC yn gweithredu'r gwasanaeth Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn i Gymru, ac rydym yn penodi ymarferwyr meddygol cofrestredig i gymeradwyo rhai mathau o driniaeth. Rôl y Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn yw diogelu hawliau cleifion sy'n cael eu cadw'n gaeth o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac sydd naill ai ddim yn cydsynio, neu yr ystyrir nad yw'r galluedd ganddynt i gydsynio, i driniaeth (triniaethau o fath adran 58 a 58A). Mae Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn unigol yn dod i'w barn eu hunain am raddau a natur anhwylder meddwl claf unigol a ph'un a oes gan y claf y galluedd i gydsynio.

Rhaid iddynt fod yn fodlon bod barn a hawliau'r claf wedi'u hystyried. Ar ôl ystyried barn y claf a barn y clinigwr cymeradwy yn ofalus, mae gan Feddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn yr hawl i newid y driniaeth arfaethedig. Er enghraifft, efallai y bydd Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn dim ond yn penderfynu awdurdodi rhan o'r driniaeth arfaethedig yn unig neu gyfyngu ar nifer y therapiau electrogynhyrfol a roddir.

Mae'r Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn yn gyfrifol am sicrhau bod y driniaeth arfaethedig er budd gorau'r claf. Dylai'r clinigwr cymeradwy priodol wneud atgyfeiriad i AGIC am farn Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn mewn achosion sy'n ymwneud â'r canlynol:

- cleifion sy'n debygol o gael eu cadw'n gaeth o dan Orchmynion Triniaeth Gymunedol (CTO) (adran 17A) nad oes ganddynt y galluedd i gydsynio i driniaeth arfaethedig, neu nad ydynt yn cydsynio, yn achos cleifion Rhan 4A
- triniaethau difrifol ac ymledol fel seicolawdriniaeth neu offer llawfeddygol at ddiben lleihau ysfa rywiol dynion (adran 57)
- cleifion o unrhyw oedran a gedwir yn gaeth nad ydynt yn cydsynio, neu nad oes ganddynt y galluedd i gydsynio, i driniaethau o fath adran 58 (adran 58)
- cleifion o dan ddeunaw oed, p'un a ydynt yn cael eu cadw'n gaeth neu'n anffurfiol, y cynigir darparu therapi electrogynhyrfol iddynt, pan fo'r claf yn cydsynio a bod ganddo'r galluedd i wneud hynny (adran 58A)
- cleifion a gedwir yn gaeth o unrhyw oedran nad oes ganddynt y galluedd i gydsynio i therapi electrogynhyrfol (adran 58A).

Oherwydd pandemig COVID-19 parhaus a phryderon iechyd a diogelwch ynghylch ymweliadau â'r safle o safbwynt y Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn, yn 2020 - 2021 gwnaethom weithredu methodoleg COVID-19 ddiogel dros dro ar gyfer y gwasanaeth Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn, lle cafodd ymweliadau â safleoedd ysbyty eu gohirio dros dro a chynhaliwyd telegynadledau neu apwyntiadau galwad ffôn yn eu lle. Wrth i ni symud i fodel gweithredu ôl-bandemig, mae'r gwasanaeth Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn bellach yn gweithredu methodoleg hybrid lle cynhelir ymweliadau â'r safle, pan fo hynny'n ddiogel ac ymarferol, ond mae ardystiad o bell yn dal i gael ei ddefnyddio hefyd gan ei gwneud yn bosibl i'r effeithlonrwydd a geir o'r fethodoleg o bell barhau, tra'n sicrhau bod diogelwch a hawliau cleifion yn cael eu blaenoriaethu.

Rydym yn parhau i weithio gyda gweinyddwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl mewn byrddau iechyd a darparwyr annibynnol i sicrhau bod cleifion yn cael mynediad amserol at Feddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn, a bod y broses mor llyfn â phosibl, er mwyn sicrhau bod hawliau cleifion yn cael eu hamddiffyn. Gwnaethom fynychu fforwm blynyddol Gweinyddwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl ac ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid er mwyn cefnogi dealltwriaeth o'n methodoleg hybrid.

Yng Nghymru yn ystod 2021 - 2022, cafwyd 759 o geisiadau am ymweliad gan Feddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn. Mae'r ffigur hwn yn ostyngiad bach o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond yn parhau i fod yn weddol gyson â ffigurau'r blynyddoedd cynt.

Roedd y geisiadau hyn yn cynnwys y canlynol:

**657**

o geisiadau yn ymwneud ag ardystio meddyginiaeth

**759**

Ceisiadau am ymweliadau gan Feddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn yn 2021 - 2022

**36**

o geisiadau yn ymwneud â meddyginiaeth a therapi electrogynhyrfol

**66**

o geisiadau yn ymwneud ag ardystio therapi electrogynhyrfol

Mae'r tabl canlynol yn dangos dadansoddiad o geisiadau'r flwyddyn:

Ceisiadau am ymweliadau gan Feddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn yn 2021 - 2022

Blwyddyn	Meddyginiaeth	Therapi electrogynhyrfol	Y ddau	Cyfanswm
2019-2020	855	50	27	932
2020-2021	869	60	27	956
2021-2022	657	66	36	759

Darperir rhaglen reolaidd o hyfforddiant i bob Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn er mwyn annog yr arferion gorau. Yn ystod y flwyddyn 2021 - 2022 darparwyd hyfforddiant a oedd yn canolbwyntio ar driniaeth a meddyginiaethau iselder. Mynychodd Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn sesiwn yn ystod gaeaf 2022 hefyd yn canolbwyntio ar ddiweddariadau cyfreithiol i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

## Adolygu Triniaeth (adran 61)

Yn dilyn awdurdodi cynllun triniaeth gan ymarferydd meddygol awdurdodedig (Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn) a benodwyd gan AGIC, rhaid i'r clinigydd cyfrifol sy'n gyfrifol am driniaeth y claf ddarparu adroddiad ar y driniaeth ac ar gyflwr y claf a'i roi i AGIC. Rhoddir y ffurflen ddynodedig i swyddfa Gweinyddwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl ar gyfer pob bwrdd iechyd lleol a lleoliad annibynnol er mwyn i'r clinigydd cyfrifol ei llenwi. Am y chweched flwyddyn yn olynol, cynhaliodd AGIC archwiliad o'r ffurflenni hyn i sicrhau bod mesurau diogelu cleifion digonol ar waith. Caiff y triniaethau eu hadolygu gan ein Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn arweiniol ar gyfer Cymru yn fisol.

**Ychydig iawn o achosion sy'n codi o hyd lle mae'r adolygydd yn nodi anghysondebau. Mae rhagor o welliannau ers ein hadroddiad blaenorol yn parhau mewn perthynas â'r meysydd canlynol:**


- Mae ychydig iawn o achosion yn codi o hyd pan fo mwy o feddyginiaeth wedi'i rhestru o dan y disgrifiad o'r driniaeth nag a awdurdodwyd ar y ffurflen CO<sup>3</sup>. Yn yr achosion hyn, mae'r adolygydd yn tynnu sylw at yr angen i gais Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn gael ei gyflwyno gan y lleoliad.

<sup>3</sup> Rheoliadau Iechyd Meddwl (Ysbyty, Gwarcheidiaeth, Triniaeth Gymunedol a Chydysnio i Driniaeth) (Cymru) 2008 yw'r prif reoliadau sy'n ymdrin ag arfer pwerau gorfodol mewn perthynas â phersonau sy'n debygol o gael eu cadw'n gaeth mewn ysbyty neu o dan warcheidiaeth, ynghyd â chleifion cymunedol, o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Mae'r Rheoliadau'n rhagnodi'r ffurflenni sydd i'w defnyddio wrth arfer pwerau o dan y Ddeddf, ac mae'r rhain wedi'u nodi yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau. Daeth y Rheoliadau hyn (a'r ffurflenni rhagnodedig) i rym ar 3 Tachwedd 2008 ac maent yn cynnwys ffurflenni CO.



## Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 (RhYÍ(CM))

Mae AGIC yn gyfrifol am fonitro cydymffurfedd â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 (RhYÍ(CM)). Bwriad y rheoliadau yw amddiffyn pobl rhag peryglon sy'n gysylltiedig ag ymbelydredd Ïoneiddio. Mae ein dull arolygu yn sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â'r rheoliadau RhYÍ(CM) hyn ac yn ystyried a yw gofal a thriniaeth yn cael eu darparu yn unol â Safonau Iechyd a Gofal Llywodraeth Cymru.



Yn ystod 2021 - 2022, cwblhaodd AGIC saith arolygiad RhYÍ(CM), gan gwmpasu'r tri chyfrwng o gysylltiadau meddygol ag ymbelydredd. Roedd yr arolygiadau hyn hefyd yn cynnwys ysbytai'r GIG ac ysbytai annibynnol.

Wrth gynnal yr arolygiadau hyn, cafodd AGIC ei gynorthwyo gan Uwch-swyddog Diagnostig Clinigol o Grŵp Cysylltiadau Meddygol (MEG) Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA), a weithredodd fel cynghorydd. Cynhaliwyd yr holl arolygiadau ar y safle. Fel rhan o'r broses, gofynnwyd i ddarparwyr gynnal hunanasesiad llawn ac yna cynhaliwyd trafodaethau gyda staff am gynnwys yr hunanasesiadau a'r dystiolaeth ategol a ddarparwyd i gefnogi'r hunanasesiad. Tra ar y safle, gwnaethom hefyd adolygu cofnodion clinigol a chofnodion perthnasol eraill yn ogystal ag arsylwi'r amgylchedd y darparwyd gwasanaethau ynddo. Gwnaethom hefyd ofyn am adborth cleifion a staff drwy arolygon ar-lein. Cafodd y cod QR i gael mynediad at yr arolwg ei arddangos ar bosteri yn y gwasanaethau a arolygwyd gennym, a gwnaethom hyrwyddo'r arolygon drwy ein sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol. Darperir copïau papur o'r arolwg cleifion i'r lleoliad cyn yr arolygiad hefyd er mwyn darparu ar gyfer cleifion na allant gael mynediad i'r arolwg ar-lein. Derbyniodd AGIC 273 o holiaduron cleifion

wedi'u cwblhau a 214 o holiaduron staff yn cwmpasu'r saith arolygiad hyn.

Roedd yr adborth gan gleifion yn hynod gadarnhaol a chadarnhaodd y cleifion eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch a'u bod wedi cael cymorth i ddeall risgiau a manteision y driniaeth yr oeddent yn ei chael. Yn ystod ein gweithgareddau sicrwydd RhYÍ(CM), gwnaethom barhau i gwrdd â thimau profiadol ac ymroddedig o weithwyr proffesiynol gydag ethos gwaith tîm da. Ar y cyfan, roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn dangos ymwybyddiaeth dda o'u cyfrifoldebau o dan RhYÍ(CM) a chawsom sicrwydd bod archwiliadau ym mhob safle a arolygwyd yn cael eu cynnal yn ddiogel.

Mae Arbenigwyr Ffiseg Feddygol yn staff cymwysedig sy'n gallu gweithredu neu roi cyngor ar faterion yn ymwneud â ffiseg ymbelydredd a gymhwysir i gysylltiadau meddygol ag ymbelydredd ym meysydd radioleg ddiagnostig, meddygaeth niwclear, a radiotherapi. Gwnaethom nodi bod y berthynas rhwng y gwahanol leoliadau RhYÍ(CM) a arolygwyd a'r Arbenigwyr Ffiseg Feddygol yn dda, p'un a oedd hyn yn cael ei ddarparu fel rhan o gytundeb lefel gwasanaeth â bwrdd iechyd arall neu gan staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y bwrdd iechyd.



Fodd bynnag, mae rhai themâu cyffredin wedi dod i'r amlwg eleni gydag argymhellion tebyg ar gyfer gwella yn cael eu gwneud ar draws pob un o'r saith darn o weithgarwch. Maent yn cael eu crynhoi fel a ganlyn:

**Gweithdrefnau'r cyflogwr** - ar sawl achlysur, gwnaethom nodi nad oedd y rhain yn rhoi digon o fanylion ac nad oeddent yn adlewyrchu'r arferion y cytunwyd arnynt mewn gwirionedd y disgrifiodd y staff i ni. Gwelsom hefyd enghreifftiau nad oedd gweithdrefnau'n gyfredol ac nad oeddent wedi cael eu hadolygu. Felly, er y gallai staff ddisgrifio arferion diogel i ni, ni allem fod yn sicr y byddai'r gweithdrefnau ysgrifenedig yn rhoi'r lefel ofynnol o wybodaeth i staff newydd, staff locwm neu staff asiantaeth i'w harwain wrth gyflawni eu rolau perthnasol.

Roedd enghreifftiau o feysydd cyffredin lle roedd diffyg manylion yng ngweithdrefnau'r cyflogwr yn cynnwys y canlynol:

- Roedd yr wybodaeth a ddarparwyd yn y ffurflen hunanasesu yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol y dylid ei chynnwys yng ngweithdrefnau'r cyflogwr i egluro'r broses yn fanlych.
- Nid oedd gweithdrefnau beichiogrwydd y cyflogwr a'r dogfennau perthnasol bob amser yn adlewyrchu'r derminoleg a ddefnyddir yn RhŶi(CM) 2017. Hefyd, roedd gweithdrefnau ymholiad beichiogrwydd y cyflogwr yn faes cyffredin lle nad oedd yr arferion cytunedig a ddisgrifiwyd gan staff yn cael eu hadlewyrchu'n gywir yng ngweithdrefnau'r cyflogwr ei hun.

**Pennu hawliau** yw'r broses o ddiffinio'r rolau a'r tasgau y caniateir i unigolion, y cyfeirir atynt fel deiliaid dyletswydd, eu cyflawni. Nodwyd gennym nad oedd deiliaid dyletswydd bob amser wedi cael eu hysbysu'n ffurfiol am eu hawliau a'u cwmpas ymarfer o dan RhŶi(CM).


Mae **archwiliadau clinigol** yn gydran allweddol o wella gofal cleifion drwy nodi meysydd i'w gwella, hyrwyddo defnydd effeithiol o adnoddau

a gwella gwasanaethau clinigol. Dylent hefyd amlygu unrhyw anghysondebau rhwng arferion gwirioneddol a safonau. Nodwyd rhai achosion lle nad oedd y gwahaniaeth rhwng archwiliad RhŶi(CM) ac archwiliadau clinigol wedi'i ddeall yn llawn ac, o ganlyniad, nid oedd archwiliadau clinigol wedi'u cwblhau.

**Gallu staff** - yn y rhan fwyaf o achosion, dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan uwch-reolwyr a'r sefydliad ehangach. Fodd bynnag, dywedasant wrthym eu bod yn cael trafferth o ran bod â'r gallu i gyflawni'r holl dasgau perthnasol sy'n ofynnol fel rhan o'u rolau deiliad dyletswydd. Efallai bod hyn yn amlwg yn y nifer o argymhellion a wnaed mewn perthynas â'r ffaith bod lefelau hyfforddiant gorfodol yn isel a'r ffaith nad oedd arfarniadau'n cael eu cwblhau mewn modd amserol.

Gwnaethom nodi argymhellion ar gyfer gwella yn ymwneud â chasglu adborth gan gleifion a hysbysu staff am ganlyniadau'r adborth hwn. Yn y rhan fwyaf o achosion roedd hyn oherwydd pandemig COVID-19 a oedd wedi lleihau faint o adborth a gasglwyd. Yn 2022 - 2023, y gobaith yw y bydd y broses o gasglu adborth yn dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig.

## Practisau deintyddol



Yn gynharach yn y pandemig, roedd practisau deintyddol yn gweithio o dan Rybudd Coch a gyhoeddwyd gan Brif Swyddog Deintyddol Cymru ac a oedd yn eu hatal rhag cyflawni unrhyw weithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol. Arweiniodd dulliau gwell o lanhau, a'r angen i gael amser rhwng cleifion, at ddarparu gofal deintyddol llawer mwy cyfyngedig nag a ddarparwyd cyn y pandemig. Yn ystod haf 2020, roedd practisau deintyddol yn gallu cynyddu'r driniaeth y gallent ei darparu ac yn ystod 2021 - 2022 gwelsom eu bod yn cynyddu darpariaeth eu gwasanaethau yn raddol, gan weithio i adfer y lefelau a fodolodd cyn y pandemig.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gynnal 77 darn o waith sicrwydd ar draws practisau deintyddol ledled Cymru. Oherwydd lefelau risg COVID-19, gwnaethom gynnal y rhan fwyaf o'r gwaith hwn o bell, a chynnal naw arolygiad ar y safle pan nad oedd modd archwilio lefel y risg i ddiogelwch cleifion o bell.

Yn achos tri gwiriad ansawdd, roedd gennym bryderon a olygodd fod angen i ni ofyn i'r practisau gymryd camau ar unwaith i leihau risgiau i ddiogelwch cleifion (gwnaethom hyn naill ai drwy ein proses Sicrwydd ar Unwaith neu drwy gyflwyno Hysbysiad o Ddiffyg Cydymffurfio, gan ddibynnu ar b'un a oedd y practis yn darparu triniaeth ddeintyddol y GIG, triniaeth ddeintyddol breifat neu gymysgedd o'r ddau).

Yn un o'r achosion, roedd asesiad iechyd a diogelwch wedi'i gynnal yn gywir gan y practis, ond ni weithredwyd ar y canfyddiadau wedi hynny, gan olygu bod meysydd o bryder iechyd a diogelwch heb eu datrys. Yn y ddau achos arall, canfuom nad oedd digon o seliau naill ai ar y llawr neu ar y llawr a'r arwynebau gwaith mewn ystafelloedd dihalogi clinigol. Mae angen sicrhau bod lloriau ac arwynebau gwaith wedi'u selio'n briodol i leihau'r risg o halogiad ac i gynnal safonau da o ran atal a rheoli heintiau.

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod gan bractisau deintyddol weithdrefnau COVID-19 effeithiol ar waith i leihau'r risg o drosglwyddo feirws. Roedd hyn yn cynnwys cadw pellter cymdeithasol, cyfnod segur (amser setlo rhwng cleifion sy'n angenrheidiol ar gyfer lleihau lefelau'r gronynnau aer sy'n cylchredeg), a dulliau cyflym o gyfathrebu â thimau staff er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am weithdrefnau COVID-19 mewn modd amserol.

Gwelsom dystiolaeth hefyd fod llawer o bractisau deintyddol wedi ystyried anghenion Cymraeg y boblogaeth o gleifion a'u bod yn gallu darparu gwybodaeth ddwyieithog i gleifion a gwasanaeth dwyieithog pan fo modd.

Roeddem hefyd yn falch o nodi'r ymdrechion a wnaed gan rai practisau o ran cefnogi a darparu



ar gyfer cleifion ag anghenion ychwanegol wrth iddynt gael eu triniaeth. Dywedodd un practis wrthym, 'MyDentist' yn Wrecsam, eu bod yn cynnal sesiynau penodol, ddwywaith y flwyddyn, ar gyfer cleifion sydd wedi cael diagnosis o awtistiaeth, er mwyn iddynt gael triniaeth mewn amgylchedd tawel. Neilltuwyd amser ychwanegol ar gyfer pob apwyntiad, caiff goleuadau eu pylu, a gostyngir sain y radio. Dywedwyd wrthym hefyd fod teganau synhwyraidd, sbectolau atal golau ac amddiffynwyr clust ar gael i gleifion eu defnyddio.

Dywedodd Practis Deintyddol Bryant wrthym hefyd fod y practis wedi defnyddio'r gwasanaeth 'Mynychu Unrhyw Le' a brysbennu o bell yn ystod y pandemig er mwyn cyrraedd cleifion a oedd yn rhy ofnus i ddod i'r practis oherwydd COVID-19. Cawsom wybod hefyd bod apwyntiadau wedi'u diogelu ar gael i gleifion agored i niwed neu mewn perygl ar ddechrau neu ddiwedd pob dydd.

Daethom o hyd i rai meysydd cyffredin i'w gwella drwy ein gwaith. Roedd angen i fwyafrif y practisau deintyddol wella'u dogfennaeth sy'n cofnodi hyfforddiant staff a sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau sesiynau hyfforddiant gorfodol. Rydym yn cydnabod y bu'n heriol dod o hyd i hyfforddiant ar adegau yn ystod y pandemig, ond mae'n rhaid i bractisau barhau i flaenoriaethu hyn gan fod hyfforddiant cyfredol yn hybu ansawdd a diogelwch cleifion.

Gwelsom fod angen cryfhau nifer o feysydd rheoli a llywodraethu fel a ganlyn:

- **Nid oedd gan nifer o bractisau system a oedd yn sicrhau bod yr holl asesiadau risg yn cael eu diweddarau. Gwelsom fod rhai asesiadau risg tân yn hen. Mae asesiadau risg yn offeryn rheoli pwysig sy'n helpu i gadw cleifion a staff yn ddiogel a dylid eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd i leihau risgiau.**
- **Nid oedd gan rai practisau deintyddol bolisi atal a rheoli heintiau cyfredol i weithio ohono. Er ein bod yn cydnabod y bu nifer o ddiweddariadau cyson i gyngor rheoli heintiau yn ystod y pandemig, mae gweithdrefnau atal a rheoli heintiau cywir (a ddylai gael eu llywodraethu trwy bolisi) yn hanfodol ar gyfer cynnal diogelwch cleifion.**
- **Gwelsom nifer o enghreifftiau hefyd o bractisau nad oeddent yn cynnal archwiliadau o'u gwaith. Mae archwiliadau'n cynnig cyfle i adolygu cysondeb ac ansawdd y gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion ac maent yn offeryn gwella ansawdd a all ddwyn llawer o fanteision a chefnogi gwelliant mewn ymarfer.**

Dylai practisau sicrhau eu bod yn ystyried y canfyddiadau uchod, gan ystyried a allant gymhwyso unrhyw ran o'r dysgu hwn i'w gwasanaeth i wella ansawdd a diogelwch y gofal a'r driniaeth a ddarperir.



## Gofal Iechyd Annibynnol

### Ysbytai Acíwt

Oherwydd effaith amseroedd aros y GIG, mae gofal iechyd annibynnol yn cael ei ddefnyddio gan gleifion nawr yn fwy nag erioed. Ar ôl gwneud defnydd o wiriadau ansawdd o bell yn unig drwy gydol 2020 - 2021, roedd yn bwysig i'n harolygwyr ddychwelyd i gynnal ymweliadau â safleoedd ysbytai annibynnol er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol.

Yn ystod 2021 - 2022, gwnaethom gwblhau tri arolygiad ar y safle o ysbytai annibynnol.

Yn gyffredinol, canfu ein harolygiadau fod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu i gleifion. Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gymerodd ran yn yr arolygiad eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth a dderbyniwyd.

Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn garedig ac yn ofalgar, a gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn cefnogi cleifion mewn modd tawel, urddasol a pharchus.

Gwelsom fod y timau staff wedi ymrwymo i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion, a bod anghenion gofal cleifion wedi'u hasesu gan y staff a'u monitro i hybu llesiant a diogelwch cleifion.

Roedd yr ysbytai y gwnaethom eu harolygu yn lân ac yn daclus ac roedd trefniadau ar waith i leihau croes-heintio. Mae hyn yn hynod bwysig oherwydd bod COVID-19 yn dal i fod yn gyffredin yn ystod adeg ein harolygiadau. Fodd bynnag, nododd hyd yn oed ein harolygiadau mwyaf cadarnhaol faterion ym maes gweithdrefnau rheoli meddyginiaethau, er enghraifft, achosion o beidio â chwblhau rhestrau gwirio cyffuriau a reolir dyddiol yn llawn. Gwnaethom hefyd nodi problemau gyda diogelwch a storio meddyginiaethau, a gwiriadau tymheredd.

Gwelsom fod rheolaeth ac arweinyddiaeth dda yn yr ysbytai, gyda'r staff yn gwneud sylwadau cadarnhaol am y gefnogaeth yr oeddent yn ei gael gan y tîm rheoli. Roedd dull amlddisgyblaethol clir o ddarparu gofal ar draws y tri arolygiad.

## Hosbisau

Mae hosbisau'n darparu gofal i oedolion, pobl ifanc a phlant sydd â salwch terfynol neu gyflwr hirdymor na ellir ei wella. Oherwydd bod y cleifion yn agored i niwed, roedd yn hanfodol bod gan hosbisau bolisiau a gweithdrefnau ar waith i amddiffyn cleifion rhag COVID-19.

**Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gynnal y canlynol:**



Ar y cyfan, roedd ein gwaith sicrwydd ac arolygu o hosbisau drwy gydol y flwyddyn yn gadarnhaol, gyda thystiolaeth bod gwasanaethau'n darparu gofal diogel ac effeithiol.

## Oedolion

Gwnaethom nodi bod y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion yn dda ac roedd tystiolaeth bod aelodau'r teulu'n ymgysylltu ac yn cymryd rhan yng ngofal eu perthynas. Roedd enghreifftiau da o waith amlddisgyblaethol i wella darpariaethau gofal.

Pwysleisiodd y staff bwysigrwydd cynnal ymweliadau cyn belled ag yr oedd modd er llesiant cleifion a'u perthnasau, yn enwedig i gleifion yn ystod dyddiau olaf eu bywyd. Disgrifiodd y staff sut y cyflawnwyd hyn mewn modd amserol ac effeithiol yn unol â chanllawiau iechyd y cyhoedd bryd hynny. Roedd hyn yn cynnwys cyfyngu ar nifer yr ymweliadau ar y dechrau a gwneud profion COVID-19 ar berthnasau cyn ymweld.

Canfuom fod nifer o feysydd cyffredin i'w gwella drwy ein gwaith fel a ganlyn:

- Nid oedd asesiadau risg amgylcheddol a chynlluniau gweithredu bob amser yn gyflawn.
- Lefelau isel o hyfforddiant gorfodol

## Pobl Ifanc a Phlant

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod y staff yn garedig ac yn barchus tuag at blant. Gwelsom y staff yn ymdrechu i amddiffyn preifatrwydd ac urddas plant wrth ddarparu cymorth gydag anghenion gofal personol. Gwelsom y staff yn cyfathrebu â'r plant mewn modd tawel, cyfeillgar a siriol. Gwelwyd y staff yn cyfathrebu â phlant mewn modd calonogol a chynhwysol.

Roedd y tîm amlddisgyblaethol yn darparu gofal unigol i gleifion yn unol â'u hanghenion. Roedd prosesau cadarn ar waith ar gyfer atgyfeirio newidiadau yn anghenion cleifion at weithwyr proffesiynol eraill megis nyrs hyfywedd meinwe, therapyddion lleferydd ac iaith, a deietegwyr.

Dywedodd plant a gwblhaodd yr arolwg ar-lein wrthym eu bod yn ymwneud â chynllunio a darparu eu gofal eu hunain. Dywedodd rhieni/gwarcheidwaid wrthym eu bod yn ymgynghori â nhw a'u bod yn cael eu hannog i ofyn cwestiynau a gwneud penderfyniadau ynghylch darparu gofal.

## Triniaeth gan ddefnyddio laser neu olau pwls dwys Dosbarth 3B/4

Yn ystod y flwyddyn 2021 - 2022, ailagorodd llawer o ddarparwyr laserau a golau pwls dwys cofrestredig eu gwasanaethau i gleifion ar ôl cyfnod o fod ar gau oherwydd pandemig COVID-19.



<sup>4</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/safonau-gofynnol-cenedlaethol-ar-gyfer-gwasanaethau-gofal-iechyd-annibynnol-yng-nghymru-2011-rhif-16.pdf>

Ar ôl i'r gwasanaethau hyn ailagor, aethom yn ôl i ofyn am sicrwydd bod gwasanaethau laser a golau pwls dwys yn ddiogel i gleifion drwy ein gwiriadau ansawdd.

Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom gynnal 15 gwiriad ansawdd o ddarparwyr cofrestredig laser a golau pwls dwys ledled Cymru. Mae'r themâu o'n gwaith yn ystod y cyfnod hwn wedi'u nodi isod a dylai darparwyr ddefnyddio'r rhain fel pwyntiau dysgu, gan ystyried p'un a allant wneud unrhyw welliannau ar sail yr hyn rydym wedi'i ganfod a'i argymhell.

Darparodd gwasanaethau laser a golau pwls dwys cofrestredig dystiolaeth dda o weithdrefnau COVID-19, megis trefniadau cadw pellter cymdeithasol ar gyfer cleifion a staff mewn manau aros. Roedd gan lawer o wasanaethau asesiadau risg COVID-19 cynhwysfawr ar waith hefyd. Roedd yn galonogol canfod bod llawer o'r gwasanaethau wedi cymryd amser yn ystod eu cyfnod cau i ddeall rheoliadau COVID-19 a rhoi arferion diogel ar waith i leihau trosglwyddiad COVID-19. Canfuom fod bron pob darparwr yn sicrhau bod ymgynghoriad wyneb yn wyneb yn cael ei gynnal ar ddarpar gleifion cyn dechrau unrhyw driniaeth. Roeddent hefyd yn sicrhau bod caniatâd yn cael ei roi gan gleifion cyn i'r driniaeth gael ei rhoi.

Yn ystod ein gwiriadau ansawdd, canfuom nad oedd gan bob darparwr bolisi diogelu cyfredol. Mae polisiau a gweithdrefnau diogelu sy'n gywir ac yn gyfredol yn ffordd bwysig o gefnogi arferion diogel.

Gwnaethom nodi hefyd nad oedd gan bob darparwr set ddilys o reolau lleol sy'n cyfeirio at y ddyfais golau pwls dwys gyfredol sydd ar waith. Gosodir rheolau lleol gan y Cynghorydd Amddiffyn rhag Laserau sy'n amlinellu'r defnydd diogel a chywir o'r peiriant laser. Rhaid i ddarparwyr sicrhau bod contract ar waith gyda Chynghorydd Amddiffyn rhag Laserau er mwyn gallu darparu triniaethau laser yn ddiogel ac yn gyfreithlon.

Roedd yn ofynnol i lawer o ddarparwyr ddiweddar eu polisi atal a rheoli heintiau. Drwy sicrhau bod y polisi yn gyfredol, gall darparwyr fod yn sicr bod staff a chleifion yn cael eu hamddiffyn rhag clefydau heintus a heintiau.


Nid oedd gan bron hanner y darparwyr bolisi ar waith a oedd yn amlinellu sut y byddai'r gwasanaeth yn ymdrin â'r angen i gyfathrebu a darparu gwybodaeth yn Gymraeg pe bai'r claf yn gofyn am hynny. Mae Safon 18 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru<sup>4</sup> yn datgan y dylai gwasanaethau gydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau i sicrhau cyfathrebu effeithiol, hygyrch, priodol ac amserol a mynd i'r afael â'r holl anghenion iaith a chyfathrebu.

# Byrddau Iechyd y GIG ac Ymddiriedolaethau'r GIG

Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, sef 1 Ebrill 2021 - 31 Mawrth 2022, parhaodd y pwysau a heriau unigryw i wasanaethau gofal iechyd a byrddau iechyd.

Eleni, nid yn unig y maent wedi wynebu'r her o ddelio â COVID-19 ei hun, ond yr her ychwanegol o adfer gwasanaethau, mynd i'r afael â rhestrau aros hir a'r galw am wasanaethau o ganlyniad i'r ffaith y cafodd llawer ohonynt eu hatal dros dro yn ystod yr ymateb cychwynnol i'r pandemig.

Ledled Cymru, gwnaethom nodi nifer o feysydd pryder cyffredin drwy ein gwaith; yn gyffredinol, roedd y rhain yn bwysau a oedd yn gysylltiedig ag adfer gwasanaethau, amseroedd aros am driniaeth a phroblemau sylweddol gyda'r llif cleifion mewn ysbytai, a phwysau a galw nodedig ar wasanaethau plant, gwasanaethau iechyd meddwl a gofal sylfaenol.




## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan  
University Health Board

Isod mae dadansoddiad o wiriadau ansawdd ac arolygiadau ar y safle a ddigwyddodd o fewn y bwrdd iechyd



Gwiriad Ansawdd	9
Ymarfer Cyffredinol	5
Ysbyty	2
Anabledd Dysgu	1
Ysbyty Cymunedol	1

Ar y safle	3
Ysbyty	2
(Rhŷi(CM))	1
Ysbyty Iechyd Meddwl	1

O fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, yn ystod y cyfnod 2021 - 2022, canolbwyntiodd ein gwaith ar geisio sicrwydd ynghylch diogelwch ac ansawdd gofal. Roedd hyn yn cynnwys cynnal cymysgedd o wiriadau ansawdd ac arolygiadau ar y safle, ystyried y themâu a'r tueddiadau a gyflwynwyd gan bryderon ac adroddiadau chwythu'r chwiban yr oeddem wedi'u derbyn yn uniongyrchol, a monitro setiau data a gwybodaeth a rannwyd â ni gan sefydliadau partner sy'n aelodau o'n Huwchgynhadledd Gofal Iechyd Genedlaethol. [Uwchgynhadledd Gofal Iechyd | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ([agic.org.uk](http://agic.org.uk))]. Mae ein barn am y bwrdd iechyd a ddatblygwyd dros y cyfnod hwn yn deillio o'r holl ffynonellau uchod o dystiolaeth.

Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi gweld tystiolaeth bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi gweithio'n galed drwy amseroedd anodd i ddatrys y materion sydd wedi codi yn sgil y pandemig ac mewn meysydd gwasanaeth penodol lle bu heriau penodol.

Mae'r newidiadau a wnaed i strwythurau llywodraethu yn ystod y pandemig wedi cael eu dwyn ymlaen o ganlyniad i ganfyddiad y bwrdd iechyd eu bod yn cael effaith fuddiol. Gwnaethom nodi bod ymgysylltu ag uwch-arweinwyr yn parhau i fod yn gadarnhaol ac roeddem o'r farn bod y bu gwelliant yn y cyfathrebu rhwng y bwrdd iechyd ac AGIC.

Mae'r bwrdd iechyd wedi bod yn rhagweithiol wrth rannu'r hyn a ddysgwyd o'n gwaith

sicrwydd ac arolygu ar draws ei wasanaethau, ac mae hefyd wedi gweithio'n rhagweithiol i gyflawni ac ymgorffori camau gweithredu ar gyfer gwella yr ydym wedi'u hargymell drwy ein gwaith. Mae'r bwrdd iechyd wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am ei gynnydd yn rheolaidd.

Her i'r bwrdd iechyd drwy gydol y cyfnod hwn fu ysbyty'r Grange sydd newydd agor. Gwnaethom gynnal arolygiad â safle'r Adran Achosion Brys a chanfod nifer o faterion, yr oedd angen rhoi sylw i rai ohonynt ar unwaith er mwyn gwella diogelwch cleifion. Dywedodd staff a ymatebodd i'n holiadur wrthym eu bod yn teimlo'u bod o dan bwysau ac yn ei chael yn anodd ymdopi â lefelau uchel o alw. Gwelwyd lefelau uchel o alw am driniaeth mewn Adrannau Achosion Brys ledled Cymru, ond mae hyn, ynghyd ag adran newydd, adeilad newydd a thîm newydd yn peri her ychwanegol, a gwnaethom annog y bwrdd iechyd i barhau â'r mewnbwn cadarnhaol er

mwyn cefnogi'r adran wrth iddi aeddfedu fel gwasanaeth.

Mewn llawer o'n gwiriadau ansawdd, roedd ein canfyddiadau'n gadarnhaol, yn enwedig o ran mynediad at gyfarpar diogelu personol, ac ychydig iawn o welliannau oedd yn ofynnol mewn unrhyw faes. Fodd bynnag, roeddem yn siomedig i nodi bod angen gwella cyfraddau cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol o hyd.

Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom nodi bod y bwrdd iechyd yn gweithio'n galed i gynnal y gwasanaethau a ddarperir yn wyneb heriau staffio sylweddol. Ar adegau, bu angen cymryd camau brys, megis oedi nifer o wasanaethau dros dro nes bod lefelau staffio yn ddiogel eto. Bydd angen i ymgyrchoedd recriwtio a hyrwyddo diwylliannau gweithio cadarnhaol ar draws gwasanaethau fod yn feysydd ffocws i'r bwrdd iechyd wrth iddo barhau i fynd i'r afael â'r her hon.



Roedd y mwyafrif o'r pryderon a gawsom ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn ymwneud â'r canlynol:

- **Asesiad clinigol**
- **Seilwaith (cyfleusterau staff a'r amgylchedd)**
- **Triniaeth / gweithdrefn**

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr




GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr  
University Health Board

Isod mae dadansoddiad o wiriadau ansawdd ac arolygiadau ar y safle a ddigwyddodd o fewn y bwrdd iechyd

Gwiriad Ansawdd	7
Ymarfer Cyffredinol	3
Ysbyty	2
Anabledd Dysgu	2

Ar y safle	4
Ysbyty Iechyd Meddwl	2
(Rhŷi(CM))	1
Anabledd Dysgu	1



O fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn ystod y cyfnod 2021 - 2022, canolbwyntiodd ein gwaith ar geisio sicrwydd ynghylch diogelwch ac ansawdd gofal. Roedd hyn yn cynnwys cynnal cymysgedd o wiriadau ansawdd ac arolygiadau ar y safle, ystyried y themâu a'r tueddiadau a gyflwynwyd gan bryderon ac adroddiadau chwythu'r chwiban yr oeddem wedi'u derbyn yn uniongyrchol, a monitro setiau data a gwybodaeth a rannwyd â ni gan sefydliadau partner sy'n aelodau o'n Huwchgynhadledd Gofal Iechyd Genedlaethol. [\[Uwchgynhadledd Gofal Iechyd | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru \(agic.org.uk\)\].](#)

Yn ystod y cyfnod dan sylw, yn ddiweddar, roedd y bwrdd iechyd wedi dod o dan arweiniad Prif

Weithredwr newydd, Jo Whitehead, a gafodd ei phenodi ym mis Ionawr 2021. Gwnaethom nodi tystiolaeth gadarnhaol o newid ar y lefel uchaf hon drwy ddeialog agored ac ymrwymiad i gydweithio â ni a phartneriaid eraill i helpu i sicrhau newid a gwelliant mewn gwasanaethau ledled y bwrdd iechyd.

Gwnaethom nodi bod angen datblygu'r diwylliant mewn llawer o feysydd ar draws y bwrdd iechyd o hyd i sicrhau bod staff yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i herio materion a chodi pryderon. Mae'n hanfodol bod y bwrdd iechyd yn parhau i weithio yn y maes hwn, gan rymuso staff a datblygu diwylliant lle mae staff yn teimlo'n hyderus i godi pryderon a herio mewn modd adeiladol.



O ganlyniad i bryder parhaus am safonau gofal mewn gwasanaethau iechyd meddwl cleifion mewnol yn y bwrdd iechyd, cynhaliwyd dau arolygiad ar y safle yn uned Hergest. Roeddem yn bryder gennym ganfod materion yn ymwneud â lefelau staffio a lludded staff sylweddol, a phroblemau ag atal a rheoli heintiau yn ystod ein gwaith arolygu yn uned Hergest. Ymatebodd y bwrdd iechyd yn adeiladol i'r heriau a godwyd gennym o ganlyniad i'r gwaith hwn, ond bydd angen mewnbwn parhaus gan y bwrdd iechyd i sicrhau'r lefel o welliant sydd ei hangen yn y gwasanaeth hwn, a'i chynnal. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion penodol a wnaethom yn dilyn ein harolygiad o uned Hergest a byddwn yn ystyried sut y caiff yr hyn a ddysgwyd ei rannu â gwasanaethau eraill ar draws y bwrdd iechyd. Roedd cadw cofnodion gwael hefyd yn faes pryder a ddaeth i'r amlwg drwy ein gwaith parhaus a monitro'r bwrdd iechyd. O ganlyniad i'r duedd hon sy'n dod i'r amlwg, gwnaethom

ganolbwyntio'n benodol ar gadw cofnodion yn y gwaith a wnaethom yn y bwrdd iechyd yn ystod y flwyddyn hon. Gwnaethom gynnal gwiriad ansawdd oddi ar y safle o'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Glan Clwyd ym mis Mawrth 2022, gan ganolbwyntio'n sylweddol ar y dystiolaeth a gasglwyd o waith cadw cofnodion cleifion. Drwy'r gwaith hwn, canfuom y perir lefel uchel o risg i ddiogelwch cleifion, a gofynnwyd i'r bwrdd iechyd gymryd camau ar unwaith i leihau'r risg. Mae canlyniad a chanfyddiadau'r gwaith hwn wedi cyfrannu at y farn gyffredinol o'r gwasanaeth penodol hwn fel Adran Achosion Brys yng Nghymru. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd y mae'r bwrdd iechyd yn ei wneud yn yr adran benodol hon a sut y caiff y dysgu ei rannu a'i ddefnyddio i lywio gwelliant ar draws ei wasanaethau.

Roedd mwyafrif y pryderon a gawsom ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ymwneud â'r canlynol:


- **Seilwaith (cyfleusterau staff a'r amgylchedd)**
- **Chwythu'r chwiban**
- **Asesiad clinigol**

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Caerdydd a'r Fro  
Cardiff and Vale  
University Health Board



Isod mae dadansoddiad o wiriadau ansawdd ac arolygiadau ar y safle a ddigwyddodd o fewn y bwrdd iechyd

Gwiriad Ansawdd	6
Ymarfer Cyffredinol	5
Ysbyty	1

Ar y safle	3
Ysbyty	1
(Rhŷi(CM))	1

Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yn ystod y cyfnod 2021 - 2022, roedd ein gwaith i geisio sicrwydd ynghylch diogelwch ac ansawdd y gofal a ddarperir gan y bwrdd iechyd yn cynnwys cynnal cymysgedd o wiriadau ansawdd ac arolygiadau ar y safle, ystyried y themâu a'r tueddiadau a gyflwynwyd gan bryderon ac adroddiadau chwythu'r chwiban yr oeddem wedi'u derbyn yn uniongyrchol, a monitro setiau data a gwybodaeth a rannwyd â ni gan sefydliadau partner sy'n aelodau o'n Huwchgynhadledd Gofal Iechyd Genedlaethol. Mae'r farn am y bwrdd iechyd a ddatblygwyd dros y cyfnod hwn yn deillio o'r holl ffynonellau uchod o dystiolaeth.

Drwy ein gwaith sicrwydd, ni wnaethom nodi unrhyw bryderon sylweddol yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, gwnaethom nodi cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau,

wrth i'r bwrdd iechyd ddechrau adfer yn sgil y pandemig. Roedd hyn hefyd yn amlwg yn Uned Frys Ysbyty Athrofaol Cymru, a welodd gynnydd cyflym yn y galw ar adeg pan oedd angen gweithredu mesurau ychwanegol i helpu i gynnal prosesau atal a rheoli heintiau digonol. Mae'r bwrdd iechyd yn gwneud llawer o waith i wella'r seilwaith, yr amgylchedd, a'r prosesau i reoli hyn.

Gwnaethom nodi hefyd fod pwysau sylweddol o fewn gwasanaethau iechyd meddwl y bwrdd iechyd, gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Mae hyn yn cynnwys cydymffurfio'n amserol ag atgyfeiriadau, asesiadau ac amseroedd triniaeth. Fodd bynnag, mae'r bwrdd iechyd eisoes wedi gwneud cynnydd ynglŷn â nifer o welliannau yn y meysydd hyn.

Mae gwelyau mewn unedau CAMHS cleifion mewnol yn brin yn genedlaethol. Ceir heriau yn y bwrdd iechyd o hyd o ran ei allu i gael mynediad at wasanaethau cleifion mewnol CAMHS mewn ardaloedd eraill. O ganlyniad, pan fo angen triniaeth claf mewnol ar blant a phobl ifanc, a phan nad oes gwelyau ar gael mewn uned arbenigol, mae angen i rai cleifion gael eu derbyn i ardaloedd Pediatrig cyffredinol, gyda chymorth nyrsys iechyd meddwl cofrestredig ac, ar adegau, mae pobl hŷn yn eu glasod wedi cael eu derbyn i'r gwasanaethau cleifion mewnol i oedolion a leolir yn Hafan y Coed. Yr her i'r bwrdd iechyd fydd cynnal a pharhau â gwelliannau yn y maes hwn, yn enwedig pan fo'r galw am wasanaethau CAMHS yn parhau i fod yn uchel.

Byddwn yn parhau i fonitro ein canfyddiadau ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf drwy gydol blwyddyn arolygu 2022 - 2023. Bydd hyn yn

cynnwys ymgymryd â gwaith arolygu a sicrwydd adweithiol wedi'i gynllunio yn ôl yr angen, gan gynnal ein dull o gyfathrebu fel rheolwr cydberthnasau â'r bwrdd iechyd a sefydliadau partner a thrwy ein hymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a staff. Bydd hyn yn ein galluogi i wirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn ysbytai'r bwrdd iechyd a'i wasanaethau cymunedol.

Drwy gydol y flwyddyn, gwnaethom nodi bod timau'r byrddau iechyd wedi parhau i weithio'n ddiflino yn ystod sawl her sylweddol sy'n parhau o ganlyniad i'r pandemig. Mae'r heriau hyn yn cynnwys cynnydd mewn absenoldebau staff a swyddi gweigion, gwasanaethau dan bwysau a'r effaith y gall yr heriau hyn ei chael ar lesiant staff a diogelwch cleifion. Mae'r bwrdd iechyd wedi bod yn rhagweithiol o ran cefnogi ei staff,

ac mae cynllun ar waith i gefnogi eu hiechyd a'u llesiant.

Mae ein hymgysylltiad â'r tîm gweithredol wedi parhau i fod yn gadarnhaol ac adeiladol, o safbwynt AGIC a'r bwrdd iechyd. Bu nifer o newidiadau o fewn y tîm gweithredol, gan gynnwys penodi Prif Weithredwr newydd, a'r ffaith bod proses recriwtio ar waith i benodi swyddogion gweithredol allweddol ychwanegol, a oedd yn cynnwys y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, y Cyfarwyddwr Meddygol a'r Prif Swyddog Gweithredu. Rydym yn ymdrechu i gynnal ein cydberthynas gadarnhaol â'r tîm gweithredol ac uwch-arweinwyr eraill.

Roedd mwyafrif y pryderon a gawsom ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ymwneud â'r canlynol:

- **Seilwaith (cyfleusterau staff a'r amgylchedd)**
- **Y Ddeddf Iechyd Meddwl**
- **Asesiad clinigol**


## Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Cwm Taf  
University Health Board

Isod mae dadansoddiad o wiriadau ansawdd ac arolygiadau ar y safle a ddigwyddodd o fewn y bwrdd iechyd



Gwiriad Ansawdd	9
Ymarfer Cyffredinol	3
Ysbyty Iechyd Meddwl	3
Anabledd Dysgu	2
Ysbyty	1

Ar y safle	5
Ysbyty	3
(Rhŷi(CM))	1
Ysbyty Iechyd Meddwl	1

O fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, yn ystod y cyfnod 2021 - 2022, roedd ein gwaith i geisio sicrwydd ynghylch diogelwch ac ansawdd gofal o fewn y bwrdd iechyd yn cynnwys cynnal cymysgedd o wiriadau ansawdd ac arolygiadau ar y safle, ystyried y themâu a'r tueddiadau a gyflwynwyd gan bryderon ac adroddiadau chwythu'r chwiban yr oeddem wedi'u derbyn yn uniongyrchol, a monitro setiau data a gwybodaeth a rannwyd â ni gan sefydliadau partner sy'n aelodau o'r Huwchgynhadledd Gofal Iechyd Genedlaethol [Uwchgynhadledd Gofal Iechyd | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ([agic.org.uk](http://agic.org.uk))]. Mae'r farn am y bwrdd iechyd a ddatblygwyd dros y cyfnod hwn yn deillio o'r holl ffynonellau uchod o dystiolaeth.

Ar y cyfan, canfuom fod y bwrdd iechyd yn parhau i wneud cynnydd yn erbyn yr **adolygiad o lywodraethu a gynhaliwyd ar y cyd gan Archwilio Cymru ac AGIC yn 2019**. Cynhaliodd y ddau sefydliad hyn adolygiad ar y cyd yn ystod 2020, **gan adrodd ym mis Mai 2021**. Canfuom fod mwy o ffocws strategol ar ansawdd, diogelwch a risg nag a ganfuwyd yn flaenorol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi ei bod yn rhy gynnar i asesu effeithiolrwydd y gwelliannau yn llawn ac, o ganlyniad, byddwn yn cynnal adolygiad dilynol pellach yn ystod 2022-23.

O ganlyniad i bryder cynyddol am yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, gwnaethom gynnal arolygiad dirybudd o'r uned.

Roedd gennym bryderon sylweddol am ddiogelwch cleifion a'r lefelau uchel posibl o risg i gleifion oherwydd ein canfyddiadau. Roeddem yn falch bod y bwrdd iechyd wedi ymateb yn gadarnhaol iawn i'n canfyddiadau, gan nodi eu bod yn agored a pharod i weithio ar fynd i'r afael â'r materion roeddem wedi'u hamlygu drwy ein gwaith, a mynd i'r afael â nhw. Gwnaethom ddychwelyd i'r adran yn ddirybudd bedwar mis yn ddiweddarach i ystyried eu cynnydd, a gallem weld bod nifer o fentrau gwella ar waith a oedd eisoes yn dechrau gwneud gwahaniaeth. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod meysydd lle roedd angen gwneud mwy o waith o hyd ac anogwyd y bwrdd iechyd i gynnal y momentwm y tu ôl i'r gwelliant.

Her i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg fydd cynnal y gwelliannau hyn. Roedd rhai o'r materion a nodwyd gennym yn nodi bod angen mynd i'r afael â diwylliant yr adran. Pan fo materion diwylliannol, gall yr her o gynnal yr ysgogiad a gwreiddio newidiadau fod yn fwy. Mewn bwrdd iechyd sydd wedi wynebu heriau o ran llywodraethu ansawdd yn y gorffennol, roedd yn gadarnhaol nodi bod newidiadau'n dechrau a nodi'r cynnydd a wnaed gan y bwrdd iechyd i wella a chynnal y gwelliannau hynny. Mae'r gwaith a wnaed ar wella diwylliant, gwerthoedd ac ymddygiadau ar draws y sefydliad yn gam cadarnhaol ar gyfer y bwrdd iechyd cyfan, ond mae'n gam y bydd angen sicrhau y rhoddir sylw parhaus iddo er mwyn gwneud newid cynaliadwy.



Roedd mwyafrif y pryderon a gawsom ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn ymwneud â'r canlynol:


- **Seilwaith (cyfleusterau staff a'r amgylchedd)**
- **Triniaeth / gweithdrefn**
- **Asesiad Clinigol**

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Hywel Dda  
University Health Board



Isod mae dadansoddiad o wiriadau ansawdd ac arolygiadau ar y safle a ddigwyddodd o fewn y bwrdd iechyd

Gwiriad Ansawdd	8
Ymarfer Cyffredinol	2
Ysbyty Iechyd Meddwl	2
Anabledd Dysgu	2
Ysbyty	2

Onsite	3
Ysbyty	2
(Rhŷi(CM))	1

O fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, yn ystod y cyfnod 2021 - 2022, roedd ein gwaith i geisio sicrwydd ynghylch diogelwch ac ansawdd gofal o fewn y bwrdd iechyd yn cynnwys cynnal cymysgedd o wiriadau ansawdd ac arolygiadau ar y safle, ystyried y themâu a'r tueddiadau a gyflwynwyd gan bryderon ac adroddiadau chwythu'r chwiban yr oeddem wedi'u derbyn yn uniongyrchol, a monitro setiau data a gwybodaeth a rannwyd â ni gan sefydliadau partner sy'n aelodau o'n Hwuchgynhadledd Gofal Iechyd Genedlaethol [[Uwchgynhadledd Gofal Iechyd | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru \(agic.org.uk\)](#)]. Mae'r farn am y bwrdd iechyd a ddatblygwyd dros y cyfnod hwn yn deillio o'r holl ffynonellau uchod o dystiolaeth.

Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi gweld tystiolaeth bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi gweithio'n galed drwy amseroedd anodd i adfer gwasanaethau yn dilyn y cyfyngiadau ar ddechrau'r pandemig. Drwy ein hymgysylltu ag uwch-arweinwyr yn y bwrdd iechyd a'n harsylwadau yn ystod cyfarfodydd ansawdd a diogelwch, mae wedi bod yn amlwg bod ansawdd wedi'i ymgorffori'n glir yn eu dull o arwain y bwrdd iechyd, ac rydym wedi gweld ffocws cryf ar ddiwylliant o ddysgu.

Mae'r anhawster o ran recriwtio staff cymwys yn parhau i fod yn her i'r bwrdd iechyd, er y bu cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr ar gyfer rolau fel gweithwyr cymorth gofal iechyd. Mae'r bwrdd

iechyd wedi parhau i fynd i'r afael â heriau recriwtio drwy fentrau fel y defnydd o gynllun prentisiaeth, sy'n galluogi pobl i weithio ac ennill cymwysterau gofal iechyd. Mae gwynwch ar draws eu gwasanaethau wedi bod yn fregus ar adegau oherwydd y problemau staffio, ac mae natur wledig a gwasgariad daearyddol y bwrdd iechyd a'u hysbytai yn gwaethygu'r sefyllfa. Nodwn fod uwch-arweinwyr yn parhau i gynllunio a gweithio'n rhagweithiol mewn ymgais i ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Gwnaethom gynnal gwiriad ansawdd oddi ar y safle o un o wasanaethau anabledd dysgu cleifion mewnol y bwrdd iechyd ac roedd gennym bryderon sylweddol ynglŷn â diogelwch yr amgylchedd ac o ran rheoli risgiau o ddydd i ddydd, a hynny mewn gwasanaeth a oedd yn gofalu am gleifion sy'n agored i niwed. Ymatebodd y bwrdd iechyd yn gyflym iawn ac

yn adeiladol i'r materion a nodwyd gennym, a chyflymodd ei fwriad i ryddhau cleifion i leoliadau eraill. Roedd y cam gweithredu hwn yn golygu bod y gwasanaeth yn wag ac ni dderbyniodd y bwrdd iechyd unrhyw gleifion pellach am weddill y flwyddyn wrth iddo weithio i fynd i'r afael â'r problemau niferus o ran darparu gwasanaethau. Drwy ein gwaith, byddwn yn parhau i fonitro cynnydd ac ailagor y gwasanaeth hwn, a byddwn yn ystyried ymyrryd ac uwchgyfeirio ymhellach os bydd angen.

Drwy ein gwaith partneriaeth gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned, fe'n hysbyswyd am adroddiadau o brofiadau gwael gan gleifion fewn gwasanaethau mamolaeth a ddarperir gan y bwrdd iechyd. Cynhaliodd y Cyngor Iechyd Cymuned arolwg yn gofyn am brofiadau o wasanaethau mamolaeth o fewn y bwrdd iechyd. Roedd y canlyniadau'n gymysg a gwelwyd sawl ymateb negyddol gan gleifion.

Gwnaethom ymgysylltu â'r bwrdd iechyd ac rydym wedi monitro ei ymateb cychwynol i'r materion; yr her iddynt fydd gwreiddio'r newidiadau yn llawn a chynnal y momentwm y tu ôl i'r gwelliannau. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r Cyngor Iechyd Cymuned i ddeall a yw profiad y claf o fewn y gwasanaethau hyn yn gwella a byddwn yn ystyried gwneud gwaith sicrwydd yn y dyfodol i wirio'r gwelliannau yn y gwasanaethau a ddarperir o ganlyniad i'r ymyriadau hyn.



Roedd mwyafrif y pryderon a gawsom ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ymwneud â'r canlynol:

- **Seilwaith (cyfleusterau staff a'r amgylchedd)**
- **Triniaeth / gweithdrefn**
- **Ymddygiad hunan-niweidiol**


## Bwrdd Iechyd Addysgu Powys



Isod mae dadansoddiad o wiriadau ansawdd ac arolygiadau ar y safle a ddigwyddodd o fewn y bwrdd iechyd

Gwiriad Ansawdd	2
Ymarfer Cyffredinol	2

Ar y safle	3
Ysbyty	1
Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol	1



O fewn Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, yn ystod y cyfnod 2021 - 2022, roedd ein gwaith i geisio sicrwydd ynghylch diogelwch ac ansawdd gofal o fewn y bwrdd iechyd yn cynnwys cynnal cymysgedd o wiriadau ansawdd ac arolygiadau ar y safle, ystyried y themâu a'r tueddiadau a gyflwynwyd gan bryderon ac adroddiadau chwythu'r chwiban yr oeddem wedi'u derbyn yn uniongyrchol, a monitro setiau data a gwybodaeth a rannwyd â ni gan sefydliadau partner sy'n aelodau o'n Huwchgynhadledd Gofal Iechyd Genedlaethol [[Uwchgynhadledd Gofal Iechyd | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru \(agic.org.uk\)](http://UwchgynhadleddGofalIechyd|ArolygiaethGofalIechydCymru)]. Mae'r farn am y bwrdd iechyd a ddatblygwyd dros y cyfnod hwn yn deillio o'r holl ffynonellau uchod o dystiolaeth.

Yn ystod y cyfnod hwn, bu sawl newid yn lefelau uwch arweinyddiaeth a rheolaeth y bwrdd iechyd, yn cynnwys staff yn gadael, yn ymddeol ac yn ymgymryd â secondiadau mewn mannau eraill o fewn y sefydliad. Oherwydd lefel y recriwtio, mae hwn yn faes a allai gymryd amser i'w sefydlogi, ond mae wedi bod yn gadarnhaol nodi bod y tîm gweithredol yn canolbwyntio ar gefnogi ac ymgorffori newidiadau i'r arweinyddiaeth fel blaenoriaeth o ran cefnogi eu gweithlu, a pharhau i ddarparu gofal rheng flaen i gleifion.

Bu ymgysylltu cadarnhaol parhaus â'r tîm arwain, gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd a pharhaus â'r Cyfarwyddwr Nyrso a'r Cyfarwyddwr Meddygol, drwy gydol y flwyddyn.



Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn comisiynu cyfran sylweddol o'i wasanaethau gan ddarparwyr yng Nghymru a Lloegr. Mae trefniadau ar waith i fonitro perfformiad y darparwyr a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau i gleifion Powys, a hynny drwy Fframwaith Sicrwydd Comisiynu. Fodd bynnag, cafodd rhywfaint o'r data perfformiad ei oedi yn gynharach yn ystod pandemig COVID-19, felly nid yw'r trefniant monitro hwn wedi bod yn gwbl weithredol drwy gydol y flwyddyn. Oherwydd bod rhai gwasanaethau'n cael eu darparu gan fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd eraill, mae aildddechrau gwasanaethau wedi bod yn amrywiol, gan arwain at anghysondeb ac effaith bosibl ar drigolion Powys. Mae'r bwrdd iechyd wedi bod yn monitro hyn yn agos, gan adrodd ar faterion yn agored mewn fforymau ansawdd, diogelwch a pherfformiad. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r bwrdd iechyd ar hyn er mwyn sicrhau ein

bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gymhleth hon, a byddwn yn ystyried gwneud gwaith yn y dyfodol i ddeall trefniadau comisiynu'n well.


Gwnaethom gynnal arolygiad ar y safle o'r ward iechyd meddwl yn Ysbyty Bronllys a nodi mai gwelliannau cyfyngedig a wnaed o ganlyniad i rai o'r argymhellion a wnaethom mewn arolygiad a gynhaliwyd gennym yno yn 2019. Roedd yn ymddangos bod y diffyg cynnydd yn ymwneud yn arbennig â'r adeiladau a'r materion cynnal a chadw a nodwyd gennym. Gwnaethom annog y bwrdd iechyd i wella ei oruchwyliaeth o'r maes hwn a gwneud cynnydd ynglŷn â'r camau gweithredu hyn. Ers hynny, mae wedi bod yn braf gweld diweddariadau a ddarparwyd gan y bwrdd iechyd i'w bwyllgor ansawdd a diogelwch ynghylch y cynnydd cyffredinol a wnaed yn erbyn argymhellion AGIC, a'u cwblhau wedi hynny.



Roedd mwyafrif y pryderon a gawsom ar gyfer Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn ymwneud â'r canlynol:

- **Seilwaith (cyfleusterau staff a'r amgylchedd)**
- **Triniaeth / gweithdrefn**
- **Asesiad clinigol**

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe



Isod mae dadansoddiad o waith sicrwydd a ddiwyddodd o fewn y bwrdd iechyd

Gwiriad Ansawdd	8
Ymarfer Cyffredinol	5
Ysbyty	2
Anabledd Dysgu	1

Ar y safle	4
Anabledd Dysgu	1
Ysbyty Iechyd Meddwl	1
(Rhŷŷ(CM))	1
CEM	1

O fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, yn ystod y cyfnod 2021 - 2022, roedd ein gwaith i geisio sicrwydd ynghylch diogelwch ac ansawdd gofal o fewn y bwrdd iechyd yn cynnwys cynnal cymysgedd o wiriadau ansawdd ac arolygiadau ar y safle, ystyried y themâu a'r tueddiadau a gyflwynwyd gan bryderon ac adroddiadau chwythu'r chwiban yr oeddem wedi'u derbynyn uniongyrchol, a monitro setiau data a gwybodaeth a rannwyd â ni gan sefydliadau partner sy'n aelodau o'n Huwchgynhadledd Gofal Iechyd Genedlaethol [[Uwchgynhadledd Gofal Iechyd | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru \(agic.org.uk\)](http://UwchgynhadleddGofalIechyd|ArolygiaethGofalIechydCymru(agic.org.uk))]. Mae'r farn am y bwrdd iechyd a ddatblygwyd dros y cyfnod hwn yn deillio o'r holl ffynonellau uchod o dystiolaeth.

Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi gweld dystiolaeth bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi gweithio'n galed drwy amseroedd anodd i ddatrys y materion sydd wedi codi yn sgil y pandemig a hefyd mewn meysydd gwasanaeth penodol lle bu heriau penodol.

Bu newidiadau yn y tîm gweithredol dros nifer o flynyddoedd, ond mae'r bwrdd iechyd wedi gwneud penodiadau gweithredol newydd, gan gynnwys Prif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Nyrso Gweithredol newydd. Rydym hefyd yn nodi y bydd angen amser i gyflawni'r effaith gadarnhaol yn sgil y

sefydlogrwydd yn y tîm gweithredol a byddwn yn parhau i fonitro cynnydd drwy ein gwaith.

O ganlyniad i ganfyddiadau negyddol mewn arolygiad blaenorol gan AGIC o Adran Achosion Brys Ysbyty Treforys ym mis Ionawr 2020, gwnaethom gynnal gwiriad ansawdd oddi ar y safle er mwyn gwirio cynnydd ac i ystyried sut roedd yr adran yn ymateb i heriau parhaus y pandemig. Canfuom fod gwelliannau wedi'u gwneud ond roedd galw sylweddol am ofal brys a diffyg capasiti mewn mannau eraill yn yr ysbyty oherwydd bod y nifer uchel o gleifion mewnol yn parhau i fod yn her. Roeddem yn bryderus i ganfod nad oedd y data hyfforddiant yr oedd yr adran yn ei gadw yn gyfredol ac felly ni allem fod yn sicr bod nifer priodol o staff hyfforddedig yn gwasanaethu'r ardal. Ymatebodd y bwrdd iechyd yn gadarnhaol i'r

her hon a llwyddodd i'n sicrhau bod niferoedd digonol o staff hyfforddedig drwy ddarparu tystiolaeth ychwanegol. Er bod hon yn un enghraifft benodol, gwnaethom nodi bod heriau galw a chapasiti yn bresennol mewn meysydd eraill, a gall y rhain gyflwyno heriau uniongyrchol a dargyfeirio'r ffocws oddi wrth waith gwella tymor hwy. Roeddem yn falch o weld bod y bwrdd iechyd yn parhau i chwilio am atebion i faterion yn ymwneud â galw a chapasiti, megis neilltuo safle Castell-nedd Port Talbot ar gyfer gweithdrefnau llawfeddygol dewisol a chynlluniedig, cefnogi llif gwell o gleifion mewn safleoedd aciwt a sicrhau ymdrechion parhaus i leihau rhestrau aros hirfaith. Rydym yn cydnabod bod hon yn her barhaus i'r bwrdd iechyd, y bydd angen iddo gefnogi a chynnal gwytnwch ei weithlu er mwyn ateb y galw uchel parhaus.

Gwnaethom hefyd gynnal adolygiad o'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith gan y bwrdd iechyd o ran darparu gwasanaethau gofal iechyd i boblogaeth carchardai Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi Abertawe. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn o ganlyniad i bryderon blaenorol a godwyd gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (ACEM) ynglŷn â'r carchar. Roedd y dystiolaeth a gasglwyd gennym yn tynnu sylw at fylchau o ran goruchwyliaeth gan y bwrdd iechyd a phrosesau nad oeddent yn ddigon cadarn i sicrhau bod gwasanaeth effeithiol yn cael ei ddarparu. Ymatebodd y bwrdd iechyd yn adeiladol ac yn gadarnhaol i'n canfyddiadau ar hyn a bydd angen iddo barhau i weithio ar y camau gweithredu a argymhellir er mwyn creu a chynnal gwelliant.

Roedd mwyafrif y pryderon a gawsom ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn ymwneud â'r canlynol:

- **Seilwaith (cyfleusterau staff a'r amgylchedd)**
- **Diogelu**
- **Asesiad clinigol**

## Iechyd Cyhoeddus Cymru

O fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn ystod y cyfnod 2021 - 2022, roedd ein gwaith i geisio sicrwydd ynghylch diogelwch ac ansawdd gofal o fewn yr ymddiriedolaeth yn cynnwys ystyried y themâu a'r tueddiadau sy'n deillio o adroddiadau pryder a chwythu'r chwiban yr oeddem wedi'u derbyn yn uniongyrchol, mynychu cyfarfodydd ansawdd a diogelwch, ymgysylltu â'r uwch-dîm gweithredol, monitro setiau data a gwybodaeth a rannwyd â ni gan sefydliadau partner sy'n aelodau o'n Huwchgynhadledd Gofal Iechyd Genedlaethol [Uwchgynhadledd Gofal Iechyd | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ([agic.org.uk](http://agic.org.uk))]. Mae'r farn am yr ymddiriedolaeth a ddatblygwyd dros y cyfnod hwn yn deillio o'r holl ffynonellau uchod o dystiolaeth.

Yn ystod y cyfnod hwn, gwelsom Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at oruchwylio cyfraddau COVID-19 yn barhaus a chyfleu hyn i'r cyhoedd. Roedd rhaglenni Gwella Iechyd yn dangos arloesedd o ran darparu gwasanaethau o bell. Gwnaethpwyd gwaith gwerthfawr i gefnogi ysgolion a busnesau i ofalu am lesiant emosiynol a meddyliol disgyblion a staff wrth i'r genedl ddod allan o'r pandemig. Parhaodd pandemig COVID-19 i effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau sgrinio iechyd cyhoeddus hanfodol a ddarperir gan

yr ymddiriedolaeth. Gwelsom dystiolaeth bod gwasanaethau'n gweithio i oresgyn yr heriau hyn yn unol â chynlluniau adfer y cytunwyd arnynt. Mae adnoddau pwrpasol wedi'u buddsoddi i fynd i'r afael â'r galw am bob gwasanaeth a dod o hyd i ddatrysiadau ynghylch colli cyfleusterau cymunedol a ddefnyddiwyd i gynnal clinigau cyn y pandemig.

Gwnaethom gydnabod gwelliannau ynglŷn ag adfer gwasanaethau fel sgrinio'r coluddyn a sgrinio serfigol a gweithgareddau sy'n gweithredu ar gapasiti tebyg i'r hyn a welwyd cyn y pandemig ar gyfer gwasanaethau fel sgrinio'r fron a sgrinio ymlediadau aortaidd yn yr abdomen. Rydym wedi nodi bod gan yr ymddiriedolaeth ddiwylliant agored ac adeiladol ymhlith ei staff ac uwch-arweinwyr, sy'n gadarnhaol wrth iddynt barhau i weithio yn sgil COVID-19. Drwy ein gwaith a'n hymgysylltiad â'r ymddiriedolaeth, byddwn yn parhau i fonitro'r meysydd hyn sydd wedi peri her arbennig, a byddwn yn ystyried gwneud gwaith sicrwydd i ymchwilio ymhellach i faterion fel y bo'n briodol.



## Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre


Roedd ein gwaith i geisio sicrwydd ynghylch diogelwch ac ansawdd gofal o fewn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn ystod y cyfnod 2021 - 2022 yn cynnwys ystyried y themâu a'r tueddiadau a oedd yn codi o bryderon ac adroddiadau chwythu'r chwiban yr oeddem wedi'u derbyn yn uniongyrchol, a monitro setiau data a gwybodaeth a rannwyd â ni gan sefydliadau partner sy'n aelodau o'n Huwchgynhadledd Gofal Iechyd Genedlaethol [Uwchgynhadledd Gofal Iechyd | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (agic.org.uk)]. Mae'r farn am yr ymddiriedolaeth a ddatblygwyd dros y cyfnod hwn yn deillio o'r holl ffynonellau uchod o dystiolaeth.

Gwelsom dystiolaeth bod Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn gweithio'n galed iawn i gynnal y gwasanaethau y maent yn eu darparu drwy wasanaethau canser arbenigol i gleifion mewnol a chleifion allanol, a hefyd ledled Cymru drwy Wasanaeth Gwaed Cymru. COVID-19 oedd yn peri'r risg fwyaf i ddarpariaeth gwasanaeth o hyd, gydag absenoldebau staff, gostyngiad mewn capasiti a chynnydd yn nifer y cleifion yn effeithio ar allu'r ymddiriedolaeth i leihau amseroedd aros am driniaeth a darparu gwasanaethau megis radiotherapi.

Cafodd ymdrechion i wneud gwaith sicrwydd AGIC yn yr ymddiriedolaeth eu rhwystro gan gynydd mewn heintiau yn gynnar yn 2022. Bydd y gwaith hwn nawr yn digwydd yn 2022/23 a bydd yn rhoi syniad inni o sut mae gwasanaethau'n gwella ar ôl y pandemig. Gwnaethom nodi ymdrechion Gwasanaeth Gwaed Cymru i adeiladu a chynnal stociau gwaed drwy gydol y pandemig. Gwnaethom nodi dystiolaeth bod y sefydliad yn parhau i gynllunio ar gyfer gofynion ar y gwasanaeth yn y dyfodol ac wedi monitro cynnydd gyda'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser. Rydym wedi gweld her dryloyw ac adeiladol yn digwydd gan aelodau annibynnol ar bob agwedd ar yr ymddiriedolaeth yn ystod cyfarfodydd pwyllgor. Mae'r ymgysylltu rhwng AGIC a thîm gweithredol yr ymddiriedolaeth yn parhau i fod yn gadarnhaol ac adeiladol, ac mae croeso i'r gwaith craffu y gallwn ei ddarparu.



## Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru



Yn ystod y cyfnod 2021 - 2022, roedd ein gwaith i geisio sicrwydd ynghylch diogelwch ac ansawdd gofal o fewn yr ymddiriedolaeth yn cynnwys rhan olaf ein hadolygiad lleol yn archwilio effaith oedi cleifion yng nghefn ambiwlansys, ystyried y themâu a'r tueddiadau a gyflwynir gan bryderon ac adroddiadau chwythu'r chwiban yr oeddem wedi'u derbyn yn uniongyrchol, a monitro setiau data a gwybodaeth a rannwyd â ni gan sefydliadau partner sy'n aelodau o'n Huwchgynhadledd Gofal Iechyd Genedlaethol [[Uwchgynhadledd Gofal Iechyd | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru \(agic.org.uk\)](#)]. Mae'r farn am yr ymddiriedolaeth a ddatblygwyd dros y cyfnod hwn yn deillio o'r holl ffynonellau uchod o dystiolaeth.

Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom nodi bod yr ymddiriedolaeth yn gweithio drwy gyfnod heriol iawn i ddarparu ei gwasanaethau a'i harbenigedd ar draws pob rhan o Gymru. Drwy gydol y flwyddyn mae'r ymddiriedolaeth wedi bod yn agored ac yn onest iawn gydag

AGIC, gan ymateb yn brydlon i geisiadau am wybodaeth a data. Gwelsom lefelau da o graffu a her yn ystod cyfarfodydd ansawdd a diogelwch, a chawsom sicrwydd bod uwch-arweinwyr yn amlwg yn cydnabod y materion y maent yn eu hwynebu a'u bod wedi ymrwymo i wella. Fodd bynnag, gwnaethom nodi materion parhaus hefyd o ran darparu gwasanaethau er gwaethaf yr ymrwymiad hwn i wella.

Mae'r sefyllfa o ran staff wedi bod yn her arbennig a sylweddol i'r ymddiriedolaeth wrth iddi barhau i weld absenoldebau sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn effeithio ar ei gweithlu. Defnyddiwyd personél milwrol i roi cymorth gyda cherbydau ymateb cymunedol, ac er y bu hyn yn ateb dros dro, pan na fydd yr adnodd hwn ar gael mwyach, bydd angen i'r ymddiriedolaeth barhau i ddod o hyd i atebion i her ei gweithlu. Rydym yn cydnabod na fydd hyn yn hawdd i'w ddatrys a byddwn yn parhau i fonitro dull yr ymddiriedolaeth o ddylunio gwasanaethau a chynllunio'r gweithlu drwy ein gwaith.

Gwnaeth ein hadolygiad lleol o brofiad cleifion tra'n aros yng nghefn ambiwlansys ganfod nifer o enghreifftiau pan oedd oedi wrth drosglwyddo wedi effeithio'n hynod negyddol ar gleifion, ond hefyd ar y staff ambiwlans a oedd yn darparu eu gofal. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo'n rhwystredig o ganfod eu bod yn aros am gyfnodau hir o amser, weithiau shifftiau cyfan, yn aros y tu allan i ysbyty i drosglwyddo claf ac yn teimlo'n ddigalon nad oeddent yn gallu darparu gofal i gleifion yr oedd angen eu cymorth arnynt yn y gymuned. Er bod cleifion yn nodi eu bod yn cael gofal da gan y staff ambiwlans a oedd yn gofalu amdanynt, nid oedd eu sylwadau ynglŷn â'r amser a dreuliwyd yn yr amgylchedd ambiwlans yn gadarnhaol.

Gwnaethom nifer o argymhellion drwy ein hadolygiad, rydym yn cydnabod eu bod yn peri her sylweddol i'r ymddiriedolaeth a system ehangach y GIG. Fodd bynnag, er mwyn gwella diogelwch cleifion a mynd i'r afael â'r

effaith ar lesiant staff, rhaid gweithredu ar yr argymhellion hyn. Yr her i'r ymddiriedolaeth fydd yr angen i gydweithio â byrddau iechyd ledled Cymru, y mae gan bob un ohonynt eu nodweddion a'u heriau unigryw eu hunain. Bydd angen cefnogi llesiant staff ambiwlans sy'n darparu gofal i gleifion yn uniongyrchol, ynghyd â'r rheini sydd mewn cysylltiad uniongyrchol â chleifion fel y bobl sy'n ymdrin â galwadau, fel mater o'r flaenoriaeth fwyaf i'r ymddiriedolaeth wrth iddi barhau i weithio ar yr argymhellion a gweithio trwy'r cyfnod heriol hwn.



# Bod yn fwy gweladwy



## Cydweithredu ac Ymgysylltu

Mae cydweithredu a chydweithio â sefydliadau eraill yn rhan annatod o'r ffordd yr ydym yn gweithio. Eleni, gwnaethom barhau i adeiladu ar y perthnasoedd cryf sydd gennym gyda'n partneriaid, gan gydnabod unwaith eto'r mewnwleidiad ychwanegol a gawsom a'r effaith gadarnhaol a gafodd ar ein gwaith.

## Cydweithredu

Gwnaethom barhau i weithio gyda phartneriaid i archwilio sut y gallwn rannu data a gwybodaeth. Roedd hyn yn cynnwys cynnal dwy Uwchgynhadledd Gofal Iechyd, ym mis Mai a mis Tachwedd 2021. Mynychwyd yr uwchgynadledau gan y cyrff rheoleiddio a gwella allweddol ym maes gofal iechyd yng Nghymru. Cytunwyd ar farn gyfunol am y materion a'r risgiau cenedlaethol allweddol ledled Cymru, er enghraifft mynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Gwnaethom rannu'r pryderon hyn â Phrif Weithredwr GIG Cymru ar ran yr holl bartneriaid. Diben hyn oedd ein helpu i gael dealltwriaeth well o ba gamau gwella sydd ar y gweill ar lefel genedlaethol. Parhaodd y fforwm hwn i fod yn ffynhonnell gyfoethog a gwerthfawr o wybodaeth ac yn llwybr ar gyfer rhannu gwybodaeth. Gwnaethom hefyd ddechrau gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu mecanwaith newydd i aelodau'r Uwchgynhadledd Gofal Iechyd rannu risgiau a phryderon difrifol sy'n dod i'r amlwg o ran diogelwch cleifion ar draws y sector. Bydd y gwaith i ddatblygu'r mecanwaith newydd hwn yn parhau i 2022 - 2023.

Yn ystod y flwyddyn gwnaethom barhau i weithio'n agos gyda'n partner, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Ym mis Mawrth 2022 gwnaethom

gyhoeddi ein hadroddiad ar y cyd ar y defnydd o **Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yng Nghymru**. Mae'r Trefniadau Diogelu yn berthnasol i bobl dros 18 oed mewn ysbytai neu gartrefi gofal, na allant gydsynio i driniaeth na gofal. Gwnaethom weithio ochr yn ochr ag AGC eto, ac Arolygiaethau Prawf Ei Mawrhydi ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ei Mawrhydi, yn ogystal ag Estyn, sef arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru, i adolygu'r **trefniadau amddiffyn plant sydd ar waith yn ardal Castell-nedd Port Talbot**.

Rydym hefyd yn gweithio'n agos gydag Archwilio Cymru, ac ym mis Mai 2021 gwnaethom gyhoeddi adroddiad yn rhoi manylion am y cynnydd a wnaed gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wrth fynd i'r afael â'r argymhellion yn ein hadolygiad ar y cyd yn 2019 o'u trefniadau llywodraethu. Mae tîm Clinigol AGIC wedi bod yn gweithio'n frwd ar y cyd â darparwyr hyfforddiant a sefydliadau proffesiynol i gefnogi hyfforddiant a ddarperir gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol ac i fyfyrwyr nyrsio cyn cofrestru. Mae hyn yn cefnogi'r gwaith o hybu mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o rôl AGIC yng Nghymru. Mae'r tîm clinigol hefyd wedi bod yn rhannu arferion da rydym wedi'u nodi drwy ein gwaith arolygu drwy gyfeirio timau byrddau iechyd at y gwasanaethau y gallant fynd atynt i ddysgu oddi wrthynt.



## Ymgysylltu



Mae siarad â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd ac sy'n gweithio o fewn gwasanaethau gofal iechyd, a gwrando arnynt, yn brif flaenoriaeth i ni. Drwy wneud hyn, gallwn ddeall yn well yr hyn sy'n bwysig i bobl a chael dealltwriaeth well o'r diwylliant o fewn gwasanaeth a mewnwleidiad i'r profiad y mae cleifion yn ei gael.

Yn ystod ein gwaith arolygu ac adolygu, rydym yn gofyn i gleifion ddweud wrthym am y gofal

y maent yn ei dderbyn drwy gwblhau arolwg byr, a phan fyddwn yn gallu siarad â chleifion yn bersonol yn ystod ymweliadau â safle, rydym yn casglu barn yn uniongyrchol. Eleni, er enghraifft, gwnaethom ddefnyddio fideo deniadol byr ar y cyfryngau cymdeithasol i helpu i esbonio ein **Adolygiad Cenedlaethol o Lif Cleifion** ac i annog pobl i ddweud wrthym am eu profiad personol, neu brofiad eu hanwyliaid os ydynt wedi cael triniaeth ar gyfer strôc. Ym mis Ionawr 2022, gwnaethom lansio ardal o'r newydd ar ein gwefan, gan olygu bod ein holl **arolygon** yn cael eu cadw mewn un lle a'i gwneud yn haws i bobl ddarganfod pa waith gweithredol sydd gennym ar y gweill, a rhannu eu sylwadau.

Roedd gwaith ar ein strategaeth ar gyfer 2022 - 2025 yn ffocws allweddol yn ystod y flwyddyn, ac fel rhan o hyn, gwnaethom gynnal dau arolwg ar-lein ar raddfa fawr a oedd ar agor i randdeiliaid a'r cyhoedd. Gwnaethom ddefnyddio'r arolygon hyn i helpu i lunio ein cyfeiriad yn y dyfodol drwy'r ddealltwriaeth gynyddol a gawsom o ganlyniad i'r ymatebion o'r effaith mae ein gwaith yn ei chael ar bobl a gwasanaethau.

Ym mis Chwefror 2022, gwnaethom gynyddu ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol a lansio ar LinkedIn. Roeddem yn cydnabod bod hwn yn llwybr ychwanegol pwysig ar gyfer ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol ym maes

gofal iechyd. Rydym wedi parhau i ddefnyddio Twitter a Facebook i ymgysylltu'n eang â defnyddwyr y cyfryngau cymdeithasol ynglŷn â'n gwaith, gan annog pobl i ddilyn dolenni i'n gwefan lle gallant ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ein gwaith a'n rôl yng Nghymru. Ar draws ein llwyfannau digidol, rydym wedi gweld cynnydd yn ein hymgysylltu gyda nifer uwch o argraffiadau, ac mae ein cynnwys yn cyrraedd cynulleidfa ehangach.

Gwnaethom hefyd ddatblygu methodoleg newydd ar gyfer cynnal arolygiadau ar safleoedd Unedau Iechyd Meddwl. Un newid pwysig yn y maes hwn yw rhoi proses ar waith i ddefnyddio holiaduron ar gyfer cleifion, staff, ffrindiau ac aelodau o'r teulu. Bydd hyn yn cynyddu ein hymgysylltiad â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl a'r bobl sy'n gweithio ynddynt.

Mewn ymateb i adborth blaenorol gan y cyhoedd y gall ein hadroddiadau fod yn anodd eu deall, gwnaethom gwblhau prosiect i roi arddull adrodd newydd ar waith ar gyfer arolygiadau ar y safle. Caiff y dull newydd hwn ei weithredu ym mis Ebrill 2022, a bydd yn cynnwys cyhoeddi crynodeb cyhoeddus ac adroddiad manwl llawn ar gyfer y lleoliad. Gwnaethom hefyd adolygu ein dulliau adrodd er mwyn dileu dyblygu diangen a sicrhau bod yr adroddiadau'n haws eu darllen. Canlyniad hyn fydd adroddiadau sy'n haws eu deall ac ymgysylltu â nhw.

# Datblygu ein pobl a'n sefydliad i wneud y gwaith gorau posibl

## Diweddariad mewnol

Er bod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un o newid sylweddol, rydym wedi parhau i fuddsoddi yn natblygiad AGIC a'i phobl er mwyn sicrhau ein bod yn monitro ac yn gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da. Cyflwynwyd llawer o ffyrdd newydd o weithio gennym er mwyn parhau i gyflawni ein swyddogaethau sefydliadol, tra'n sicrhau ein bod yn hyblyg i unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg. Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn, ac mae'n bwysig ein bod yn ymdrechu i rannu'r gwersi a ddysgwyd, myfyrio ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda a bwrw ymlaen â'r dysgu hwn i wella'n barhaus.

Gwnaethom wrando ar ein pobl a chefnogi eu llesiant er mwyn eu galluogi nhw a'n sefydliad i wneud y gwaith gorau posibl a chadw ein cymunedau'n ddiogel ac yn iach. Datblygodd ein hadran Gwasanaethau Corfforaethol raglen Dysgu a Datblygu bwrpasol ar gyfer ein staff, gan deilwra cyfleoedd unigryw i alluogi ein gweithlu i adeiladu ar sgiliau hanfodol. O ganlyniad i lansio a gweithredu ein Strategaeth Lesiant fewnol mae ein sgorau arolwg staff yn dangos yn glir y bu gwelliant ar draws ein themâu allweddol, gan gynnwys cynhwysiant, arweinyddiaeth a newid.

Rydym hefyd wedi recriwtio i sawl rôl newydd gan gynnwys staff y Ddeddf Iechyd Meddwl ac adolygwyr cymheiriaid i gryfhau ein mynediad at arbenigedd clinigol ochr yn ochr â datblygu llwybr proffesiynol ar gyfer ein holl arolygwyr AGIC. Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi recriwtio nifer o adolygwyr cymheiriaid sydd â phrofiad o weithio mewn rolau nyrsio arbenigol, gan gynnwys ym maes stociau ac iechyd meddwl plant a'r glasoed.

Rhoddyd system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid newydd ar waith gennym ym mis Mawrth 2022. Cymerodd y system newydd le llawer o'r taenlenni a'r ddogfennaeth roeddem

eisoes yn eu defnyddio. Mae'r system wedi cael ei chyflwyno'n llwyddiannus ac mae'n galluogi ein staff i ddefnyddio data a gwybodaeth mewn modd mwy effeithiol ac effeithlon i gryfhau ein gallu i gynhyrchu gwybodaeth a mewnwelediad. Rydym wedi parhau i weithio gyda phartneriaid i archwilio sut y gallwn rannu data a gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys gwaith cydweithredol cynnar i ddatblygu proses newydd ar gyfer sefydliadau gofal iechyd a phartneriaid yng Nghymru i rannu risgiau a phryderon difrifol o ran diogelwch cleifion ar draws y sector.

Rydym wedi cynnal fforymau staff rheolaidd i drafod y gwersi a ddysgwyd, meysydd i'w gwella a grymuso ein gweithlu i ddweud eu dweud. Mae sylwadau'r fforwm ac awgrymiadau yn y blwch staff dienw yn cael ei fonitro a'i fwydo'n ôl i uwch-arweinwyr, a chaiff syniadau, pryderon a chynigion eu hadolygu a'u gweithredu.



# Matrics Ymrwymiad

Mae'r tabl a ganlyn yn rhestr o'r amcanion a osododd AGIC iddi'i hun ar gyfer 2021 - 2022, ynghyd â manylion ynghylch sut y gwnaethom gyflawni'r amcan.

Yr hyn a ddywedasom	Wedi'i fesur gan	Canlyniad
Rheoleiddio gofal iechyd annibynnol		
Cyflawniad 1		
<p>Prosesu ceisiadau i gofrestru, neu newidiadau i gofrestriad, mewn modd amserol.</p> <p>Sicrhau y gall pob ymgeisydd ddangos ei fod yn bodloni rheoliadau perthnasol a safonau gofynnol.</p>	<p>Ceisiadau cofrestru wedi'u penderfynu o fewn 12 wythnos o'r cyflwyniad llawn wedi'i gwblhau.</p>	<p>Cwblhawyd y gwaith cofrestru canlynol yn ystod 2021 - 2022</p> <p><b>Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 44 o gofrestriadau newydd</li> <li>• 28 o newidiadau i reolwyr cofrestredig</li> <li>• 12 o newidiadau i unigolion cyfrifol</li> <li>• 22 amrywiad i amodau cofrestru AGIC</li> </ul> <p><b>Practisau Deintyddol Preifat</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 14 o gofrestriadau newydd</li> <li>• 37 o newidiadau i reolwyr cofrestredig</li> <li>• 12 o newidiadau i unigolion cyfrifol</li> <li>• 1 amrywiad i amod cofrestru AGIC.</li> </ul>

## Yr hyn a ddywedasom

## Wedi'i fesur gan

## Canlyniad

## Rheoleiddio gofal iechyd annibynnol

## Cyflawniad 2

Cynnal rhaglen o ymweliadau â darparwyr a amheuir iddynt fod yn anghofrestredig yn ôl yr angen.

Cyflwyno rhaglen o waith sicrwydd ac arolygu ar leoliadau annibynnol yn unol â'n rheolau amllder.

Parhau i gynllunio a chyflawni gweddill ein rhaglen waith mewn meysydd lle credwn y ceir y lefel uchaf o risg i ddiogelwch cleifion.

Nifer yr ymweliadau a gynhaliwyd.

Nifer y gwiriadau ansawdd a gynhaliwyd.

Nifer yr adroddiadau a gyhoeddwyd bedair wythnos ar ôl cynnal gwiriad ansawdd.

Nifer yr arolygiadau llawn a gynhaliwyd.

Nifer yr adroddiadau a gyhoeddwyd dri mis ar ôl cynnal arolygiad.

Pan fo angen gweithredu ar frys, yn dilyn gwaith sicrwydd yn y sector annibynnol, cyflwynir hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio i'r gwasanaeth o fewn dau ddiwrnod.

Cynhaliwyd tri ymweliad â darparwyr anghofrestredig.

Gwnaethom gynnal 91 o wiriadau ansawdd o wasanaethau annibynnol.

Gwnaethom gynnal 34 o arolygiadau ar y safle o wasanaeth annibynnol.

Gwnaethom gyhoeddi 91 o wiriadau ansawdd yn ystod 2021 - 2022. Cyhoeddwyd 75 o'r rhain o fewn pedair wythnos.

Gwnaethom gyhoeddi 34 o adroddiadau arolygiad ar y safle yn ystod 2021 - 2022. Cyhoeddwyd 28 o'r rhain o fewn tri mis i ddyddiad yr arolygiad.

Gwnaethom gyhoeddi 16 hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.

Yr hyn a ddywedasom	Wedi'i fesur gan	Canlyniad
<b>Rheoleiddio gofal iechyd annibynnol</b>		
<b>Cyflawniad 3</b>		
<p>Sicrhau yr ymdrinnir â phryderon a hysbysiadau o dan Reoliad 30/31 mewn modd amserol a phroffesiynol.</p>	<p>Nifer y pryderon a dderbyniwyd.</p> <p>Nifer yr hysbysiadau o dan Reoliad 30/31 a dderbyniwyd.</p> <p>Dadansoddiad o'r ffynhonnell a'r camau a gymerwyd.</p>	<p>Yn ystod 2021 - 2022, cawsom 514 o bryderon gan y cyhoedd neu staff. Cawsom hefyd 16 o bryderon mewn perthynas â darparwyr neu leoliadau anghofrestredig nad oes angen iddynt gofrestru ag AGIC.</p> <p>Caiff yr holl bryderon eu hadolygu a'u harfarnu bob wythnos ac maent yn llywio penderfyniadau am ein gweithgareddau a'n blaenoriaethau arolygu.</p> <p>Mae'n ofynnol i ddarparwyr gofal iechyd annibynnol ein hysbysu am ddigwyddiadau a datblygiadau arwyddocaol yn eu gwasanaeth. Mae'r hysbysiadau hyn o dan Reoliad 30/31 yn parhau i gael eu rheoli yn unol â'n proses ac ymdrinnir â nhw'n effeithiol.</p> <p>Cawsom gyfanswm o 1,484 o hysbysiadau o dan Reoliad 30/31. Mae dadansoddiad o'r hysbysiadau fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Marwolaethau mewn hosbis - 604</li> <li>• Marwolaethau ac eithrio hosbisau - 28</li> <li>• Absenoldebau heb awdurdod - 90</li> <li>• Anafiadau difrifol - 483</li> <li>• Honiadau o gamymddwyn staff - 156</li> <li>• Brigiad mewn achosion o glefydau heintus - 100</li> <li>• Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLs) - 23</li> </ul>

Yr hyn a ddywedasom	Wedi'i fesur gan	Canlyniad
Rheoleiddio gofal iechyd annibynnol		
Cyflawniad 3		
		<p>Cawsom gyfanswm o 156 o hysbysiadau o dan Reoliad 25 (Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017) yn ystod 2021 - 2022.</p> <p>Maent fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Anafiadau difrifol - 8</li> <li>• Brigiadau mewn achosion o glefyd heintus - 147</li> <li>• Honiadau o gamymddwyn staff - 1</li> <li>• Marwolaeth claf - 0</li> </ul> <p>Gwerthuswyd yr holl hysbysiadau, a gofynnwyd am sicrwydd ychwanegol yn ôl yr angen.</p>

## Yr hyn a ddywedasom

## Wedi'i fesur gan

## Canlyniad

## Arolygu'r GIG

## Deliverable 4

Cyflwyno rhaglen o waith sicrwydd ac arolygu yn y GIG ar draws pob lleoliad ar sail dadansoddiad o risg a sut mae ein hadnoddau'n cael eu defnyddio orau.

Parhau i gynllunio a chyflawni gweddill ein rhaglen waith mewn meysydd lle credwn y ceir y lefel uchaf o risg i ddiogelwch cleifion.

Nifer y gwiriadau ansawdd a gynhaliwyd.

Nifer yr adroddiadau a gyhoeddwyd bum wythnos ar ôl cynnal gwiriad ansawdd.

Nifer yr arolygiadau llawn a gynhaliwyd. Nifer yr adroddiadau a gyhoeddwyd dri mis ar ôl cynnal arolygiad.

Pan fo angen sicrwydd ar unwaith yn dilyn proses sicrwydd GIG, anfonir llythyrau at Brif Weithredwr y sefydliad o fewn dau ddiwrnod.

Gwnaethom gynnal y gwiriadau ansawdd a'r arolygiadau canlynol:

**Gwiriadau ansawdd**

25 Meddyg teulu  
10 Ysbyty GIG  
5 Ysbyty iechyd meddwl y GIG  
8 Anabledd dysgu  
1 Ysbyty cymunedol cam i lawr

**Arolygiadau**

8 Ysbyty GIG  
7 Ysbyty iechyd meddwl y GIG  
5 Anabledd dysgu  
6 Rhŷi(CM)

Gwnaethom gyhoeddi 49 o wiriadau ansawdd yn ystod 2021 - 2022. Cyhoeddwyd 26 o'r rhain o fewn pedair wythnos.

Gwnaethom gyhoeddi 23 o adroddiadau arolygiad ar y safle yn ystod 2021 - 2022. Cyhoeddwyd 17 o'r rhain o fewn tri mis i'r arolygiad.

Dosbarthwyd 12 allan o 14 o lythyrau Sicrwydd ar Unwaith gennym o fewn dau ddiwrnod i'r arolygiad / gwiriad ansawdd.

## Yr hyn a ddywedasom

## Wedi'i fesur gan

## Canlyniad

## Arolygu'r GIG

## Cyflawniad 5

Parhau â'n rhaglen o adolygiadau gan gynnwys:

- Atal argyfwng iechyd meddwl yn y gymuned.
- Adolygiad o reoli meddyginiaethau.
- Adolygiadau lleol â ffocws; un o'r rhain fydd adolygiad lleol o Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru Bydd hwnnw'n ystyried diogelwch, urddas, llesiant a phrofiad cyffredinol cleifion tra'n aros mewn ambiwlansys mewn Adrannau Achosion Brys ysbytai.
- COVID-19: Themâu a dysgu o'n gwaith.

Ymgymryd â gwaith dilynol ar adolygiadau lleol neu genedlaethol a gyhoeddwyd yn flaenorol, gan gynnwys:

- Cam un ein Hadolygiad Cenedlaethol o Wasanaethau Mamolaeth.
- Adolygu Rhyddhau Cleifion o'r Ysbyty i Bractisau Meddygon Teulu.
- Adolygiad o Ofal Integredig: Canolbwyntio ar Gwympiadau.
- Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yng Nghymru.
- Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru - Asesiad o Drefniadau Rheoli Cleifion o fewn Canolfannau Cyswllt Clinigol y Gwasanaeth Meddygol Brys.
- ICC - Asesiad o sut mae proses sgrinio'r fron yn cael ei rheoli mewn modd amserol i fenywod sy'n cael mamogram sgrinio annormal

Dadansoddi, cynhyrchu a chyhoeddi'r adolygiad.

Cyhoeddi cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiadau hyn.

Cychwyn rhaglen o waith dilynol.

Yn ystod y flwyddyn gwnaethom gyhoeddi:

- Adolygiad Cenedlaethol o COVID-19
- Adolygiad Cenedlaethol o Atal Argyfyngau Iechyd Meddwl yn y Gymuned: wedi'i gwblhau
- Adolygiad o Ddiogelwch, Preifatrwydd, Urddas a Phrofiad Cleifion wrth aros mewn Ambiwylansys pan fydd Oedi wrth Drosglwyddo Gofal

We also completed our local review of Governance Arrangements at Swansea Bay University Health Board for the Provision of Healthcare services to Her Majesty's Prison Swansea.

We started work on our National Review of Patient Flow (Stroke Pathway) and Local Review of Discharge Arrangements for Adult Patients from Inpatient Mental Health Services in Cwm Taf Morgannwg University Health Board.



## Yr hyn a ddywedasom

## Wedi'i fesur gan

## Canlyniad

## Arolygu'r GIG

## Cyflawniad 6

Cynnal adolygiad lefel uchel o bob corff GIG drwy:

- Ddatblygu'r swyddogaeth Rheoli Cysylltiadau ymhellach.
- Llunio datganiad blynyddol ar gyfer pob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG.

Cyhoeddi datganiadau blynyddol byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG.

Fel rhan o'n hadroddiad blynyddol ar gyfer 2021 - 2022, rydym wedi cynnal adolygiad lefel uchel o bob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth y GIG. Rydym wedi llunio datganiad ar gyfer pob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth, a gellir dod o hyd i'r rhain yn yr adran '*Gweithredu pan na chyrhaeddir safonau*' yn yr adroddiad hwn.

## Yr hyn a ddywedasom

## Wedi'i fesur gan

## Canlyniad

## Ein gwaith ym maes iechyd meddwl

## Cyflawniad 7

Ymgymryd â rhaglen o waith sicrwydd ac arolygu ar lleoliadau'r GIG, a lleoliadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu annibynnol.

Parhau i gynllunio a chyflawni gweddill ein rhaglen waith mewn meysydd lle credwn y ceir y lefel uchaf o risg i ddiogelwch cleifion.

Ymgymryd ag o leiaf un darn o waith sicrwydd ym maes anabledd dysgu ym mhob ardal bwrdd iechyd yn ystod y flwyddyn arolygu hon.

Nifer y gweithgareddau sicrwydd ac arolygu a gyflawnwyd.

Yn ystod 2021 - 2022, gwnaethom gwblhau'r gwaith sicrwydd ac arolygu canlynol ar draws lleoliadau'r GIG, a lleoliadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu annibynnol:

**Gwiriadau ansawdd**

- 5 Ysbyty iechyd meddwl y GIG
- 8 Anabledd dysgu

**Arolygiadau**

- 14 Ysbyty iechyd meddwl annibynnol
- 7 Ysbyty iechyd meddwl y GIG
- 5 Anabledd dysgu

Yr hyn a ddywedasom	Wedi'i fesur gan	Canlyniad
<b>Ein gwaith ym maes iechyd meddwl</b>		
<b>Cyflawniad 8</b>		
Darparu gwasanaeth Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn i oddeutu 1,000 o geisiadau am Feddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn.	Cyhoeddi Dangosyddion Perfformiad Allweddol.	Cynhaliodd gwasanaethau Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn 759 o adolygiadau achos. Roedd y rhain yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>• 657 - Meddyginiaeth</li> <li>• 66 - Therapi electrogynhyrfol</li> <li>• 36 - Meddyginiaeth a therapi electrogynhyrfol</li> </ul>

Yr hyn a ddywedasom	Wedi'i fesur gan	Canlyniad
<b>Rhannu'r hyn rydym yn ei ddarganfod</b>		
<b>Deliverable 9</b>		
Cyhoeddi adroddiadau o'n holl weithgarwch sicrwydd yn unol â'n safonau perfformiad.	<p>Cyhoeddi adroddiadau yn ôl ein hamserlen gyhoeddi.</p> <p>Cyhoeddi perfformiad AGIC yn erbyn targedau.</p> <p>Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol 2020 - 2021</p>	<p>Gwnaethom gyhoeddi 140 o wiriadau ansawdd yn ystod 2021 - 2022. Cyhoeddwyd 101 o'r rhain o fewn pedair wythnos.</p> <p>Cyhoeddwyd 57 o adroddiadau arolygiad gennym yn ystod 2021 - 2022. Cyhoeddwyd 45 o'r rhain o fewn tri mis i'r arolygiad.</p>

Yr hyn a ddywedasom	Wedi'i fesur gan	Canlyniad
Rhannu'r hyn rydym yn ei ddarganfod		
<b>Cyflawniad 10</b>		
<p>Mynd ati i rannu ein canfyddiadau a'n hargymhellion â rhanddeiliaid, darparwyr gwasanaethau a'r cyhoedd i ddylanwadu ar welliannau a'u llywio ym maes gofal iechyd. Yn arbennig mewn perthynas â:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithgarwch sicrwydd ysbytai</li> <li>• Practisau meddygon teulu</li> <li>• Practisau deintyddol</li> <li>• Adroddiad monitro blynyddol y Ddeddf Iechyd Meddwl</li> <li>• Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DOLS)</li> <li>• RhYÍ(CM)</li> <li>• Laserau</li> <li>• Adroddiad Blynyddol AGIC.</li> </ul>	<p>Cyhoeddwyd a lledaenwyd ein canfyddiadau mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys:</p> <p>Dosbarthu bwletinâu dysgu</p> <p>Dosbarthu astudiaethau achos o arferion da.</p> <p>Gwella cynnwys y wefan</p>	<p>Cynhaliwyd gweithdai rheolaidd gyda Chynghorau Iechyd Cymuned ac uwchgynadleddau chwarterol gyda'r GIG a'r sector gofal iechyd annibynnol.</p> <p>Gwnaethom gyhoeddi 19 cylchlythyr amrywiol drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys diweddariadau a chanllawiau i bractisau deintyddol, diweddariad gaeaf i randdeiliaid, a chylchlythyrau misol.</p> <p>Rydym wedi cefnogi gwelliannau i'n gwefan yn ystod 2021 - 2022 gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• creu adran arolygon newydd ar ein gwefan.</li> <li>• creu nodwedd cyfryngau cymdeithasol newydd ar ein gwefan</li> <li>• Gwneud gwelliannau rheolaidd i ymarferoldeb y wefan i ddarparu gwell profiad i ddefnyddwyr, gan gynnwys nodweddion deniadol, offer llywio symlach a defnyddio delweddau brand</li> </ul>

Yr hyn a ddywedasom	Wedi'i fesur gan	Canlyniad
<b>Gweithio gyda phobl eraill</b>		
<b>Cyflawniad 11</b>		
Parhau â'n gwaith arolygu ar y cyd ag asiantaethau'r DU. Manylion i'w cytuno arnynt yn chwarterol.	Nifer yr arolygiadau a gynhaliwyd.	Gwnaethom gynnal 15 o ymchwiliadau i farwolaethau yn y ddalfa  Gwnaethom gynnal dau arolygiad o garchar gydag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

Yr hyn a ddywedasom	Wedi'i fesur gan	Canlyniad
<b>Gweithio gyda phobl eraill</b>		
<b>Cyflawniad 12</b>		
Parhau i weithio gydag asiantaethau eraill ar arolygiadau a dylanwadu ar arferion gorau.  Mae ein pum adolygiad arfaethedig gyda gwasanaethau eraill Arolygu Cymru ac Arolygiaeth ei Mawrhydi yn cynnwys :  <ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygiad o drefniadau Llywodraethu Ansawdd Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau (adolygiadau llywodraethu ar y cyd ag Archwilio Cymru).</li> </ul>	Cymryd rhan mewn gwaith ar y cyd. Cydgrynhoi'r canfyddiadau allweddol a'r themâu sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith ar y cyd, ac ystyried sut y gall y rhain lywio ein rhaglenni gwaith yn y dyfodol	Bu AGC yn ymwneud â chynllunio gwaith trwy ein grŵp rhanddeiliaid ar gyfer ein hadolygiad o'r Argyfwng Iechyd Meddwl  Gwnaethom barhau i weithio gydag Archwilio Cymru i adolygu trefniadau llywodraethu ansawdd byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau.  Gwnaethom gynnal ail adolygiad peilot JICPA perthnasol o drefniadau amddiffyn plant gyda'r holl asiantaethau.

## Yr hyn a ddywedasom

## Wedi'i fesur gan

## Canlyniad

## Gweithio gyda phobl eraill

## Cyflawniad 12

- AGC yn darparu cefnogaeth i'n hadolygiad o Atal Argyfwng Iechyd Meddwl.
- Adolygiad Arolygiaeth ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA) (ar y cyd ag AGC, Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ac Estyn).
- Cefnogi Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi gyda'u harolygiad thematig ar y cyd o driniaeth cyffuriau yn y gymuned a gwaith adfer gyda defnyddwyr y gwasanaeth prawf (ar gyfer gwybodaeth i gefnogi ein adolygiad Atal Argyfwng Iechyd Meddwl).
- Cefnogi Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi gyda'u harolygiadau o wasanaethau carchardai yng Nghymru.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru a rhanddeiliaid eraill i adolygu effeithiolrwydd gweithio ar y cyd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Cyflwynodd AGIC, AGC ac Estyn achos busnes ar y cyd i Lywodraeth Cymru i sicrhau cyllid ychwanegol i barhau â'n gwaith JICPA, er mwyn ein galluogi i adolygu prosesau o fewn pedwar awdurdod lleol arall ledled Cymru. O fewn y cynllun, byddem yn cwblhau'r gwaith a wnaed mewn chwe awdurdod lleol ac yn gwerthuso'r holl adolygiadau JICPA a gynhaliwyd i lunio darlun cenedlaethol o fewn adroddiad, a fyddai'n cael ei gyhoeddi yn ystod haf 2024 pan fydd yr holl waith wedi'i gwblhau. Mae cytundeb dros dro bellach ar waith ar gyfer y cyllid yn gynnar yn chwarter cyntaf 2022 - 2023.

Parhaodd AGIC i weithio'n agos gydag AGC a Llywodraeth Cymru i ymgymryd â gwaith gyda'r byrddau partneriaeth rhanbarthol ac asesu eu heffeithiolrwydd. Bydd ein Cyfarwyddwr Strategaeth ac Ymgysylltu sydd newydd ei benodi yn arwain y gwaith hwn drwy waith gyda'r byrddau partneriaeth, ac yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf

## Ein blaenoriaethau 2022-2025

Mae gofal iechyd yn bodoli ar gyfer pobl a chymunedau, ac mae'r gwaith rydym yn ei wneud yn edrych ar b'un a yw'n diwallu anghenion cymuned a ph'un a yw o ansawdd da. Lle rydym yn dod o hyd i anghydraddoldebau mewn darpariaeth gofal iechyd, lle nad yw gwasanaeth wedi'i ddylunio ar gyfer anghenion y gymuned mae'n ei wasanaethu, byddwn yn herio hyn.

Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'u hymgorffori yn y gwaith rydym yn ei wneud ac rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd y rheini sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf i fynediad at ofal iechyd o ansawdd.

Mae ein cyfrifoldebau mewn perthynas ag iechyd meddwl yn pontio'r GIG a'r sector annibynnol. Mae AGIC hefyd yn gweithio gyda chyrff adolygu ac arolygiaeth eraill i ystyried ansawdd y gofal iechyd a ddarperir mewn lleoliadau y tu allan i'r system gofal iechyd, megis carchardai.

Wrth i ni symud ymlaen i'r tair blynedd nesaf byddwn yn gweithio i'n **strategaeth** newydd.

Ein nod yw:

**Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno.**



Bydd y blaenoriaethau hyn yn ein helpu i ystyried p'un a yw gofal iechyd yn diwallu anghenion cymuned a ph'un a yw o ansawdd da. Bydd cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth wraidd y gwaith a wnawn ac mae ein strategaeth yn ein cefnogi i ystyried sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd y rhai sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf i fynediad, a'r canlyniadau gwaethaf ym maes iechyd.

## Ein hadnoddau



Ar gyfer 2021 - 2022, roedd gennym gyllideb o tua £4.3 miliwn. Er i'r pandemig effeithio ar ein gallu i gyflwyno rhaglen lawn o weithgarwch ar y safle, gwnaethom barhau i ddefnyddio ein dull newydd o gael sicrwydd oddi ar y safle, a elwir yn wiriadau ansawdd, pan oedd hynny'n briodol. Gwnaethom gryfhau'r dull hwn yn ystod 2021 - 2022 yn dilyn gwerthusiad o'i effeithiolrwydd a'i addasrwydd i'w ddefnyddio y tu hwnt i'r pandemig. Fodd bynnag, gwnaethom barhau i ymateb i wybodaeth a oedd yn dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn a oedd yn peri pryder dybryd i ni neu, pan oedd cymaint o risg i ddiogelwch cleifion, gweithredu ar y safle oedd y dull mwyaf priodol o gael sicrwydd.

Mae gennym swyddi cyfwerth ag oddeutu 83 o staff cyfwerth ag amser llawn. Ar hyn o bryd, mae gennym banel o dros 200 o adolygwyr cymheiriaid arbenigol gyda chefnidiroedd yn cynnwys nyrsys arbenigol a chyffredinol, meddygon teulu, deintyddion, anesthetyddion, a rheolwyr practisau meddygon teulu. Mae gennym hefyd arbenigwyr ym maes gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl a phanel o seiciatryddion sy'n darparu ein gwasanaeth Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn. Mae gennym dros ddeg ar hugain o Adolygwyr Profiad Cleifion ac Arbenigwyr yn ôl Profiad.

Mae'r tabl yn dangos nifer y swyddi amser llawn neu ran amser ym mhob tîm yn AGIC yn ystod 2021 - 2022.

Tîm	Swyddi llawn amser
Uwch-weithredwyr	3
Arolygu, Rheoleiddio a Phryderon	39
Partneriaethau, Gwybodaeth a Methodoleg	14
Strategaeth, Polisi a Chyfathrebu	5
Cyngor clinigol (gan gynnwys gwasanaeth Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn)	4
Gwasanaethau Corfforaethol (gan gynnwys cymorth busnes)	18
Cyfanswm	83



## Cyllid

Mae'r tabl yn dangos sut y gwnaethom ddefnyddio'r adnoddau ariannol a oedd ar gael i ni yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf i gyflawni ein Cynllun Gweithredol ar gyfer 2021 - 2022.

	£000's
Cyfanswm Cyllideb AGIC £	£4,376,000

Gwariant	£000's
Costau staff	3,882,624
Teithio a chynhaliaeth	13,150
Dysgu a datblygu	18,883
Costau nad ydynt yn ymwneud â staff	45,944
Cyfieithu	59,939
Costau'r adolygydd	414,358
Costau Newid Rhaglen TGCh	333,816
Costau TGCh nad ydynt yn ymwneud â Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid	15,102
Dibrisiant asedau	13,866
Cyfanswm gwariant (a) £	4,797,682

Incwm	£000's
Gofal iechyd annibynnol	311,790
Cofrestriadau deintyddol preifat	241,900
Cyfanswm incwm (b) £	553,690
Cyfanswm gwariant net (ab) £	4,243,992



## Cysylltwch â ni

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Ebost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)  
Ffôn: 0300 062 8163

[www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

Dewch o hyd i ni ar:



WG46034

978-1-80364-856-9